# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00 - 13.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

13.30

**Dogfennau atodol:**

## 2 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

13.30-14.30 (Tudalennau 1 - 64)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Cath Wyatt, Rheolwr Bil

Grace Martins, Cyfreithwraig

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (PDF 1,087KB), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol (4.8MB)

**LJC(6)-16-21 - Papur 1** - Nodyn briffio

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 1 - Nodyn briffio

LJC(6)-16-21 - Papur 2 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 2 Tachwedd 2021

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau statudol negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3B.

14.30-14.35 (Tudalen 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 3 – Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag adroddiadau clir

**3.1 pNeg(6)002 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021**

**Dogfennau atodol:**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

14.35-14.45

**Dogfennau atodol:**

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**4.1 SL(6)087 – Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 66 - 68)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)091 – Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 69 - 73)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 5 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd – 23 Tachwedd 2021

**4.3 SL(6)092 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021**

(Tudalennau 74 – 77)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 7 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd, 25 Tachwedd 2021

**4.4 SL(6)093 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

(Tudalennau 78 – 81)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 9 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 26 Tachwedd 2021

**4.5 SL(6)094 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021**

(Tudalennau 82 – 85)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 11 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Tachwedd 2021

**4.6 SL(6)095 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021**

(Tudalennau 86 – 89)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 13 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 14 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Tachwedd 2021

**4.7 SL(6)096 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021**

(Tudalennau 90 – 93)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 15 – Adroddiad drafft

LJC(6)-06-21 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 27 Tachwedd 2021

**4.8 SL(6)100 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021**

(Tudalennau 94 – 97)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 17 – Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

LJC(6)-16-21 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 1 Rhagfyr 2021

**4.9 SL(6)097 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

(Tudalennau 98 – 102)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 19 – Adroddiad drafft

LJC(6)-16-21 – Papur 20 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 29 Tachwedd 2021

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft

**4.10 SL(6)088 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 103 – 104)

Rheolau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 21 – Adroddiad drafft

**4.11 SL(6)089 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 105 – 106)

Rheolau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 22 – Adroddiad drafft

## 5 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

14.45-14.50 (Tudalen 107)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 23 – Is-ddeddfwriaeth gydag adroddiadau clir

**5.1 SL(6)090 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

(Tudalennau 108 – 140)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 24 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 29 Tachwedd 2021

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

14.50-14.55

**Dogfennau atodol:**

**6.1 WS-30C(6)004 - Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 141 - 144)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 25 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 24 Tachwedd 2021

LJC(6)-16-21 – Papur 26 – Sylwadu

## 7 Fframweithiau Cyffredin

14.55 - 15.00

**Dogfennau atodol:**

**7.1 Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd**

(Tudalennau 145 - 147)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 27 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Tachwedd 2021

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

15.00-15.05

**Dogfennau atodol:**

**8.1 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd Cyngor Prydain-Iwerddon yng Nghymru**

(Tudalen 148)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 28 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 29 Tachwedd 2021

## 9 Papurau i'w nodi

15.05.-15.10

**Dogfennau atodol:**

9.1 **Gohebiaeth gan y Pwyllgor Pwer Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith, Senedd yr Alban: Ymchwiliad i ddefnyddio'r weithdrefn gwneud cadarnhaol yn ystod pandemig y coronafeirws**

(Tudalennau 149 - 150)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 29 - Llythyr gan Gynullydd y Pwyllgor Pwer Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith, 25 Tachwedd 2021 (Saesneg yn unig)

9.2 **Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

(Tudalennau 151 - 154)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 30 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 1 Rhagfyr 2021

LJC(6)-16-21 - Papur 31 - Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Tachwedd 2021

9.3 **Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 155 - 158)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 32 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 2 Rhagfyr 2021

LJC(6)-16-21 - Papur 33 - Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2021

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o Eitem 1 y cyfarfod a gaiff ei gynnal ar 13 Rhagfyr 2021

15.10

**Dogfennau atodol:**

## 11 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - trafod y dystiolaeth

15.10-15.25

**Dogfennau atodol:**

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar - trafod yr adroddiad drafft

15.25-15.35 (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 34 - Adroddiad drafft

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau - trafod yr adroddiad drafft.

15.35-15.45 (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 35 - Adroddiad drafft

## 14 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

15.45-16.00

**Dogfennau atodol:**

### 14.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) - Trafod yr adroddiad drafft diwygiedig

(To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 36 - Adroddiad drafft

### 14.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

15.45-16.00 (Tudalennau 159 - 166)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) - Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

**LJC(6)-16-21 – Papur 37** – Nodyn cyngor cyfreithiol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 37 – Nodyn cyngor cyfreithiol

## 15 Cytundebau rhyngwladol a drafodwyd ar 29 Tachwedd 2021 – trafod yr adroddiad drafft

16.00-16.05 (Tudalennau 167 – 171)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 38 – Adroddiad drafft

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne,

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Yn sgil cyflwyno Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar 1 Tachwedd 2021, amgaeaf gopi o datganiadau o fwriad polisi. Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

## Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddyd a chanllawiau

## Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn crynhoi’r pwerau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, y pwerau gwneud cyfarwyddyd a’r canllawiau sydd wedi’i hamlinellu yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), fel y’i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 1 Tachwedd 2021.

Mae’r papur yn egluro pam y dewiswyd y pwerau hyn a’r polisi cyfredol y llywodraeth ar gyfer defnyddio’r pwerau hyn. Mae’r cyfiawnhad dros weithdrefn y Senedd a ddewiswyd wedi’i nodi yn nhablau 5.1 a 5.2 o’r Memorandwm Esboniadol.

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio’r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn y sector addysg drydyddol. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyfle cychwynnol i randdeiliaid gynnig adborth ar y defnydd arfaethedig o’r pwerau hyn er mwyn sicrhau polisi cadarn ac effeithiol.



Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac yn gyfiawn.

**Trosolwg o’r Bil**

Mae’r Bil yn cynnwys 7 Rhan a 4 Atodlen.

- Mae Rhan 1 yn sefydlu corff cyhoeddus Cymreig hyd braich newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn amlinellu’r dyletswyddau strategol
- Mae Rhan 2 yn amlinellu swyddogaethau rheoleiddio’r Comisiwn o ran cofrestr o Ddarparwyr Addysg Drydyddol, gweithdrefn gofrestru ar gyfer Darparwyr Addysg Drydyddol, fframweithiau sicrhau ansawdd
- Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ariannu’r Comisiwn ac i’r Comisiwn i ariannu addysg drydyddol ac ymchwil.
- Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â Phrentisiaethau Cymru
- Mae Rhan 5 yn cynnwys y darpariaethau ar gyfer diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr
- Mae Rhan 6 yn cynnwys dyletswyddau a phwerau’r Comisiwn o ran gwybodaeth a data
- Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys darpariaethau’n ymwneud â diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru.

**Pwerau a etifeddwyd o ddeddfwriaeth gyfredol**

Mae'r Bil yn cynnwys 20 o bwerau gwneud rheoliadau a etifeddwyd i raddau helaeth o ddeddfwriaeth sy’n bodoli eisoes. Mae'r pwerau hyn yn seiliedig yn bennaf ar ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gyda rhywfaint o addasiadau.

| Maes polisi | Adran o’r Bil | Deddfwriaeth gyfredol |
|---|---|---|
| Ffioedd, cyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol | 30(6) | Adran 5(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| | 30(8)(b) | Adran 5(5) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| | 30(10) | Adran 5(9) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| | 44(6) | Adran 5(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| | 82 | Adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch | 52(8) | Adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| Arolygu addysg bellach a hyfforddiant | 55(1)(f) | Adran 75(1)(e) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| | 55(4) | Adran 77(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| | 59(1) | Adran 76(3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| | 61(9) | Adran 83(7) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau | 77(3) | Adran 44(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill | 81(4) | Adran 3(4) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 |
| Llywodraethu AU | 133(2) | Paragraff 2 i 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 |
| | 134(2) | Adran 125(2) i (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 |

**Pwerau’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer arfer darpariaethau cyfarwyddyd a chanllawiau gan y Comisiwn. Nodir diben ac effaith arfaethedig y darpariaethau hyn yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Nid yw'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn o fwriad polisi gan mai mater i'r Comisiwn yw sut y cânt eu harfer.

**Dogfennaeth arall**

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- Nodiadau Esboniadol i'r Bil;
- Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yn enwedig penodau 3 a 5.

## Canllawiau a chyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 18 | Canllawiau | Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i’r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn |
| 19 | Cyfarwyddyd | Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i’r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau. | Dim gweithdrefn |

**Disgrifiad o’r pwerau**

Mae adran 18 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau (h.y. pwerau a dyletswyddau) a roddir gan y Bil, neu gan Reoliadau a wneir oddi tano.

Mae adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ynghylch cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, yn amodol ar gyfyngiadau penodol i ddiogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i benderfynu ar ddyraniadau cyllid i ddarparwyr unigol. Nid yw'r cyfyngiadau'n atal unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon rhag cael ei lunio drwy gyfeirio at gwrs astudio, neu rannau o gyrsiau astudio, yn cael eu darparu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn cyhoeddi cyfarwyddyd cyffredinol o dan y pwerau hyn. Mae hefyd yn ofynnol iddynt adolygu unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon a rhoi gwybod i’r Senedd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath a gosod copi o’r cyfarwyddyd gerbron y Senedd.

Mae hyn yn barhad o bŵer sy'n bodoli eisoes lle gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i CCAUC ynghylch arfer ei swyddogaethau.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer canllawiau yn bŵer cyffredinol sydd ei angen fel bod Gweinidogion Cymru’n gallu cyhoeddi canllawiau perthnasol pan fo angen.

Mae angen y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, pe bai angen, yn gallu cyfarwyddo'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau.

Er enghraifft, efallai y bydd Gweinidogion Cymru am gyfarwyddo'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer darparu math penodol o addysg, megis darpariaeth rhan-amser neu ddysgu o bell, neu mewn perthynas â maes addysg eang, megis pynciau STEM. Yn ogystal, mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried yr amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd camau amserol a phenodol i ddelio â digwyddiadau sydd â goblygiadau sylweddol i addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

## Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 20(1) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn. | Cadarnhaol |
| 20(4) a (5) | Cyfarwyddyd | Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y gall eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad addysg uwch neu addysg bellach yng Nghymru, gael eu harfer gan y Comisiwn pan fo gan Weinidogion Cymru hawl i gael hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo hwnnw | Dim gweithdrefn |

### Disgrifiad o'r pwerau



Mae adran 20 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn. Rhaid i swyddogaeth atodol a roddir i'r Comisiwn o dan y pwerau hyn fod yn swyddogaeth sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â darparu, neu ddarpariaeth arfaethedig addysg drydyddol, neu i gyflawni, neu'r bwriad i gyflawni ymchwil ac arloesi. Mae'r pŵer i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn yn barhad o'r trefniadau presennol sydd ar waith i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau atodol i CCAUC o dan adran 69(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y gall eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch neu addysg bellach, gael eu harfer gan y Comisiwn pan fo gan Weinidogion Cymru hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

### Diben a bwriad y polisi

Mae rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei alluogi i arfer yr holl swyddogaethau perthnasol mewn perthynas ag addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi pe bai'r sector yn esblygu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo CCAUC pan fo unrhyw eiddo neu dir yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru lle mae gan Weinidogion Cymru unrhyw hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo neu'r tir. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'u buddiannau mewn eiddo neu dir sefydliad naill ai yn y sectorau addysg uwch neu addysg bellach yng Nghymru fel bod y Comisiwn yn

arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru ar eu rhan. Mae hyn yn briodol gan y bydd gan y Comisiwn oruchwyliaeth reoleiddiol yn y dyfodol o sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru’n darparu arian i gefnogi buddsoddiad yn yr ystâd addysg bellach o dan raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif, gallai fod taliadau cyfreithiol yn deillio o fuddsoddiadau o'r fath. Yn y dyfodol, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno i'r Comisiwn allu rheoli trefniadau ariannu o'r fath ar eu rhan.

## Categorïau cofrestru

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 23(2) | Rheoliadau | Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu un neu fwy o gategorïau cofrestru y mae'n rhaid gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. | Cadarnhaol |
| 23(5) | Rheoliadau | Caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd cofrestru darparwr mewn un categori o'r gofrestr ar yr un pryd ag y mae wedi ei gofrestru mewn un neu ragor o'r categorïau eraill. | Negyddol |
| 23(8) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr. | Negyddol |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth bennu categorïau cofrestru gwahanol, pa un a yw darparwyr yn gallu cael eu gwahardd rhag cofrestru mewn categorïau cofrestru lluosog, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr.

**Diben a bwriad y polisi**

Bwriedir i'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol fod yn fecanwaith hyblyg ar gyfer rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru mewn modd cymesur ac atebol. Yn benodol, bydd y gofrestr yn sicrhau rheoleiddio priodol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 23(2) yn galluogi i gategorïau o gofrestriad gael eu creu sy'n gymwys i wahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol fel y bo'n briodol. Gall fod yn angenrheidiol pennu gwahanol gategorïau o gofrestriad os caiff mathau newydd o gyllid cymorth i fyfyrwyr eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ehangu cyfleoedd addysg ôl-orfodol, megis mewn addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol nad ydynt yn radd uwch.

At hynny, mae strwythur cyllido (ac o ganlyniad rheoleiddio priodol) addysg drydyddol (yn arbennig addysg uwch) ledled y DU wedi newid yn aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn aml yn cael effaith ar bolisi ariannu yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd ar gyfradd sy'n gynt na'r hyn sy'n briodol neu'n ymarferol i'r Llywodraeth Cymru ymateb

gyda deddfwriaeth sylfaenol ynghylch manylion rheoleiddio ym mhob achos. Felly, dylai'r Bil hwn alluogi i fanylion y fframwaith rheoleiddio gael eu newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn strwythur neu gyllid y sector trydyddol yng Nghymru.

Bydd y categorïau cofrestru sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau yn cael eu llywio gan ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Cynnig polisi cyfredol y llywodraeth yw rhagnodi dau gategori o gofrestriad:

- Darparwyr Addysg Uwch (Craidd) - Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel y ffi uwch, sef £9000 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn hefyd yn gymwys i gael arian grant addysg uwch gan y Comisiwn (gweler 'Ariannu'). Bydd darparwyr yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir yn y Bil ac mewn rheoliadau (gweler 'Amodau cofrestru').

- Darparwyr Addysg Uwch (Amgen) – Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel ffioedd is, £6165 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir isod (gweler 'Amodau cofrestru').

Nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth i greu unrhyw gategorïau ar gyfer darparwyr nad ydynt yn darparu addysg uwch. Bydd y darparwyr hyn yn parhau i gael eu rheoleiddio'n bennaf trwy'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig ag arian grant a dderbynnir gan y Comisiwn. Mae pennu categorïau cofrestru, ac amodau cysylltiedig, mewn rheoliadau yn darparu'r hyblygrwydd i greu categorïau cofrestru ar gyfer darparwyr addysg bellach (nad ydynt yn darparu addysg uwch), darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant, a mathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol, os bydd newidiadau yn y dyfodol o ran ariannu a blaenoriaethau rheoleiddio yn y sector.

Bwriedir hefyd, yn amodol ar fod y ddau gategori cofrestru arfaethedig, rhagnodi mewn rheoliadau o dan adran 23(6) mai dim ond mewn un o'r categorïau y gall darparwyr gofrestru.

## Amodau cofrestru

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 25(3) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol pellach. | Cadarnhaol |
| 30(2)(b) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru bennu categori cofrestru y mae amod terfyn ffioedd i fod yn gymwys mewn perthynas ag ef. | Cadarnhaol |
| 31(1) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru bennu categorïau cofrestru a fydd yn ddarostyngedig i amodau cofrestru parhaus mandadol yn ymwneud â chyfle cyfartal. | Cadarnhaol |
| 32 | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhagor o amodau cofrestru parhaus gorfodol. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 25(1) yn amlinellu'r amodau cofrestru cychwynnol y mae'n rhaid i ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru eu bodloni i fod yn gofrestredig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 25(3) sy'n darparu ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol pellach a allai fod yn gymwys i un neu fwy o gategorïau cofrestru.

Mae adran 29 yn amlinellu amodau cofrestru parhaus gorfodol y mae'n rhaid i ddarparwr eu bodloni i barhau i fod yn gofrestredig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 32 sy'n darparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus gorfodol pellach a all fod yn gymwys i un neu ragor o gategorïau cofrestru.

Mae'r system reoleiddio a grëir gan y Bil wedi'i chynllunio i fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac felly mae'n rhaid caniatáu iddi addasu i amgylchiadau sy'n newid. Gall y bydd angen creu amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus newydd sy'n berthnasol i wahanol gategorïau o gofrestru yn ogystal â'r rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i anghenion rheoleiddio sy'n newid.

Mae adran 30(2) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn osod amod cofrestru parhaus mewn perthynas â hwy ar derfyn ffioedd, tra bod adran 31(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r categorïau cofrestru a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru parhaus ar gyfle cyfartal.

**Diben a bwriad y polisi**

Yn ogystal â’r amodau cofrestru cychwynnol a amlinellir yn adran 25(1), mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i’r amodau cofrestru cychwynnol canlynol fod yn gymwys i’r categorïau cofrestru priodol. Darperir ar gyfer y categorïau hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil er mwyn cadw'r hyblygrwydd i newid neu ddiwygio'r darpariaethau hyn.

| Math o amod | Amod | Categori |
|---|---|---|
| Cychwynnol | **Cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr** – Bwriedir i’r rheoliadau ddarparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categorïau hwn sy’n ymwneud â’r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am ddarparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau gyda myfyrwyr. Bydd yr amod cofrestru hwn yn galluogi’r Comisiwn i’w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy’n ceisio cofrestru ddangos eu bod yn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau o dan gyfraith defnyddwyr, ac yn benodol gydag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer darparwyr addysg uwch gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. | Craidd ac Amgen |
| Cychwynnol | **Statws elusennol** – Bwriedir i’r rheoliadau ddarparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categori hwn sy’n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn elusen. Byddai hyn yn parhau â’r polisi cyfredol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy’n ei gwneud yn ofynnol i ‘sefydliadau a reoleiddir’ yng Nghymru fod yn sefydliadau elusennol. | Craidd |

Bwriedir hefyd, yn amodol ar y ddau gategori cofrestru arfaethedig, ragnodi mewn rheoliadau o dan adran 31(1) fod y ddau gategori yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru parhaus mandadol mewn perthynas â chyfle cyfartal.

Ni fwriedir ar hyn o bryd bennu ar gyfer unrhyw amodau cofrestru parhaus pellach ar gyfer unrhyw gategori cofrestru.

## Datgofrestru

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 39(2) | Rheoliadau | Pŵer i nodi amgylchiadau pellach lle y mae'n rhaid i'r Comisiwn ddileu sefydliad o un neu fwy o gategorïau yn y gofrestr neu bob categori o'r gofrestr | Cadarnhaol |
| 39(6) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad o gategori o'r gofrestr. | Dim gweithdrefn |
| 41(13) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad yn wirfoddol neu'n gydsyniol o gategori'r gofrestr. | Dim gweithdrefn |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn galluogi is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer amgylchiadau penodol, yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y Bil, lle caiff sefydliad ei dynnu oddi ar y gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, ac ar gyfer gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed pan gaiff darparwr ei ddileu o'r gofrestr, boed hynny'n orfodol neu'n wirfoddol.

**Diben a bwriad y polisi**

Bwriedir i'r pŵer o dan adran 39(2) sicrhau bod unrhyw amgylchiadau sy'n dod i'r amlwg a allai fynnu bod darparwr cofrestredig yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr neu gategori penodol o'r gofrestr yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth.

Bwriedir i'r pwerau o dan adrannau 39(6) a 41(13) sicrhau bod arian cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu os bydd darparwr yn peidio â bod ar y gofrestr. Gall hyn gynnwys sicrhau bod y Comisiwn yn cadw rhai pwerau rheoleiddio mewn perthynas â darparydd a ddatgofrestrwyd, neu fod rhai ffrydiau ariannu yn parhau i fod ar gael dros dro i fyfyrwyr darparydd a ddatgofrestrwyd er mwyn sicrhau parhad a chwblhad y cwrs.

Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn a dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y disgwylir iddynt gael eu defnyddio.

## Ffioedd, cyrsiau cymhwysol, a phersonau cymhwysol

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 30(4) | Rheoliadau | Pŵer i bennu beth yw cwrs cymhwysol. | Negyddol |
| 30(8)(b) | Rheoliadau | Pŵer i bennu pwy sy'n berson cymhwysol at ddibenion talu ffioedd cwrs rheoleiddiedig. | Negyddol |
| 30(10) | Rheoliadau | Pŵer i bennu pryd y mae ffioedd sy'n daladwy i ddarparydd mewn perthynas â chwrs y mae'n ei ddarparu ar ran sefydliad cofrestredig i'w trin fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd. | Negyddol |
| 44(6) | Rheoliadau | | Cadarnhaol |
| 82 | Rheoliadau | Pŵer i bennu eithriadau pellach i'r diffiniad o 'ffioedd' at ddibenion Rhan 2. | Negyddol |

Tudalen y pecyn 34

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' at ddibenion rheoleiddio'r terfyn ffi dysgu uchaf ar gyrsiau cymhwysol a ddarperir gan, neu ar ran, ddarparwyr cofrestredig.

Maent hefyd yn galluogi rheoliadau i bennu amgylchiadau pan fo ffioedd a delir i berson sy'n darparu cwrs ar ran darparwr cofrestredig i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i'r darparwr cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg ar hyn o bryd o dan adrannau 5 a 57 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod terfynau ffioedd yn gymwys i wahanol gyrsiau neu grwpiau gwahanol o fyfyrwyr mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r ffyrdd y mae darparwr addysg uwch yn codi ffioedd yng Nghymru, a hefyd unrhyw newidiadau ar ffurf y cymorth i fyfyrwyr a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, rhagnodir cyrsiau cymhwysol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015. Maer Rheoliadau hyn yn darparu mai personau cymhwysol yw'r personau hynny sydd, ar ddiwrnod cyntaf y

flwyddyn academaidd berthnasol, yn dod o fewn yr Atodlen i'r Rheoliadau, ac eithrio'r personau hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan yr eithriadau a restrir.

Mae adran 30(10) o'r Bil yn sicrhau, pan fydd gan ddarparwyr cofrestredig gyrsiau a ddarperir ar eu rhan, drwy drefniant is-gontractio neu freinio, nad yw darparwyr yn gallu osgoi'r terfyn ffioedd dysgu statudol. Gwneir rheoliadau o dan yr adran hon i sicrhau nad yw'r amrywiaeth o drefniadau breinio cymhleth a all fodoli yn y sector addysg uwch yn creu unrhyw amgylchiadau lle y gellir osgoi'r terfyn ffioedd.

Mae rhagnodi disgrifiadau o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' yn fater technegol a fydd yn debygol o fod angen ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Dim ond mewn ymateb i ffurfiau esblygol o drefniadau breinio a threfniadau is-gontractio rhwng darparwyr addysg drydyddol y bydd angen unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 30(10).

Uchafswm y ffi dysgu

Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ar hyn o bryd yn nodi'r uchafswm o ran ffioedd a allai fod yn daladwy ar gyfer cyrsiau cymhwysol gan ddarparwyr a reoleiddir o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ynghylch uchafswm y ffi dysgu ar gyfer cyrsiau addysg uwch cymhwysol wedi newid.

## Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 52(5) | Rheoliadau | Pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau ac adroddiadau addysg uwch gydag ysbeidiau penodedig rhyngddynt. | Negyddol |
| 52(8) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i gael ei drin fel un sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 52 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch cofrestredig. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir ar ran darparwr addysg uwch cofrestredig, megis o dan fasnachfraint neu drefniant is-gontractio.

Mae adran 52(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r ysbeidiau lleiaf a ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig rhwng cynnal asesiadau ansawdd, ac i ragnodi'r cyfnod y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau asesu oddi mewn iddo.

Mae adran 52(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylai neu na ddylai darparwr allanol gael ei drin fel petai'n darparu'r cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer sy'n cyfateb i hwnnw yn adran 52(8) o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Mae'r pwerau hyn yn ymdrin yn bennaf â materion technegol a manwl sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewn addysg uwch.

**Diben a bwriad y polisi**

Ysbeidiau rhwng cyfnodau asesu addysg uwch

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn nodi y dylai asesiadau addysg uwch gael eu cynnal o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Mae hyn yn gyson â fframwaith sicrhau ansawdd cyfredol CCAUC, a hefyd â chylch arolygu arferol Estyn mewn rhannau eraill o'r sector addysg ôl-orfodol.

Efallai y bydd angen newid y cyfnod lleiaf rhwng asesiadau ansawdd addysg uwch (adran 52(5)) o bryd i'w gilydd mewn ymateb i newid argaeledd adnoddau neu asesiadau risg o ran ansawdd yn y sector addysg uwch.

Darparwyr allanol

Er nad oes bwriad ar unwaith i wneud rheoliadau o'r fath, mae adran 52(8) yn rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru wneud y ddarpariaeth angenrheidiol pe bai unrhyw fathau newydd o drefniadau partneriaeth ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch yn datblygu yn y dyfodol.

## Arolygu addysg bellach a hyfforddiant

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 55(1)(f) | Rheoliadau | Pŵer i bennu addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant (y "Prif Arolygydd") eu harolygu, yn ychwanegol at addysg a hyfforddiant a nodir ar wyneb y Bil. | Negyddol |
| 55(4) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â'r ysbeidiau rhwng cyfnodau arolygu ac adrodd. | Negyddol |
| 59(1) | Rheoliadau | Pŵer i roi swyddogaethau pellach i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 55(1). | Negyddol |
| 61(9) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r rhwymedigaethau i roi gwybodaeth i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad ag arolygiad ardal; a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygiadau ardal gael eu cyhoeddi cyn diwedd cyfnod penodol. | Negyddol |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 55 o'r Bil yn nodi cylch gwaith arolygu'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Bwriad y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 55(1)(f) ac adran 59(1) yw ymestyn neu egluro cylch gwaith y Prif Arolygydd mewn ymateb i fathau newidiol o ddarpariaeth yn y sector addysg a hyfforddiant.

Mae adran 55(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- bennu'r cyfnod byrraf posibl rhwng arolygiadau, ac
- ragnodi'r cyfnod ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu.

Mae adran 59 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu unrhyw swyddogaethau eraill sydd gan y Prif Arolygydd mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant a restrir yn adran 65(1).

Mae adran 61 yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer arolygiadau ardal, gan gynnwys y gofynion i gyrff a restrir yn adran 61(7) ddarparu gwybodaeth i'r prif arolygydd. Mae adran 61(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud:

- darpariaeth bellach yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth

- darpariaeth o ran y cyfnod pryd y mae’n rhaid cyhoeddi adroddiadau o arolygiadau ardal.

Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn dal pwerau gwneud rheoliadau tebyg i’r holl bwerau a restrwyd uchod o dan ran 4 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**Diben a bwriad y polisi**

Adran 55(1)(f) a adran 59(1) - Cylch gwaith a swyddogaethau eraill y Prif Arolygydd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio’r pwerau yn adran 55(1)(f) a 59(1) o’r Bil.

Mae’r pwerau hwn yn angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, efallai y bydd rheoliadau ei angen er mwyn i Estyn allu arolygu addysg cychwynnol athrawon darparwyr ôl-orfodol, yn yr un modd â dyletswyddau presennol i arolygu hyfforddiant gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu addysg gychwynnol athrawon ar gyfer ysgolion.



Adran 55(4) a adran 61(9)(b) - Cyfnodau arolygu ac adroddiadau

Mae Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (“Rheoliadau 2001”), fel y’i diwygiwyd (yn fwyaf diweddar gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020), yn ei gwneud yn ofynnol:

- i arolygiadau gael eu cynnal unwaith bob chwe blynedd ar ôl cwblhau’r cyfnod arolygu sy’n dod i ben ar 31 Awst 2024. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar yr ysbaid rhwng cyfnodau arolygu’n newid.
- i adroddiadau arolygu gael eu gwneud o fewn cyfnod o 70 o ddiwrnodau gwaith o’r dyddiad y cwblheir yr arolygiad neu’r arolygiad ardal. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar adroddiadau arolygu wedi newid.

Mae polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfnodau arolygu ac amseriad adroddiadau, mewn perthynas â'r ddau arolygiad o dan adran 55(1) o'r Bil ac arolygiadau ardal o dan adran 61 o'r Bil yn aros yr un fath, a gwneir rheoliadau o dan adran 55(4) a 69(9)(b) sy'n ailddatgan y ddarpariaeth bresennol fel y nodir yn Rheoliadau 2001.

Adran 69(9)(a) - Rhwymedigaeth i roi gwybodaeth i’r Prif Arolygydd

Ni fwriedir ar hyn o bryd gwneud rheoliadau o dan adran 69(9)(a). Mae'r pŵer yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â materion ymarferol megis y ffordd y caniateir i'r ddyletswydd yn 61(7) gael ei bodloni.

## Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 68(1) | Cyfarwyddyd | Pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd yn ymddygiad sefydliad addysg bellach os ydynt yn fodlon bod un neu fwy o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli. | Dim gweithdrefn |

**Disgrifiad o’r pwerau**

Os yw Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni bod un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd (fel y nodir yn adran 67 o'r Bil) yn bodoli, cânt, yn unol ag adran 68 o'r Bil, roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu, ymhlith pethau eraill:

- gydweithredu â'r cyfryw bersonau ac ar y cyfryw delerau a bennir yn y cyfarwyddyd
- gwneud penderfyniad i'r corff gael ei ddiddymu ar ddyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

Ceir rhagor o fanylion am y pwerau ymyrryd hyn ym mharagraffau 3.196 – 3.204 o'r Memorandwm Esboniadol.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r swyddogaethau ymyrryd yn cyflawni rôl bwysig o ran gweithredu'r polisi i ddiogelu darpariaeth addysg bellach yng Nghymru. Fodd bynnag, bwriedir i'r swyddogaethau gael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o achosion dim ond pan fydd y Comisiwn wedi arfer ei holl swyddogaethau ymyrryd neu lle mae'r mater mor ddifrifol fel bod angen cymryd camau mwy brys.

## Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 77(3) | Rheoliadau | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o benderfyniadau. Er enghraifft, manylion am rôl yr adolygydd penderfyniadau a'r weithdrefn i'w dilyn (gweler is-adran (4)). | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 77 yn nodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phenodi person neu banel i gynnal adolygiadau o benderfyniadau o dan adrannau 43 a 76 o'r Bil.

Caiff darparwr ofyn am adolygiad pan fydd y Comisiwn yn defnyddio'r pwerau a ganlyn:

- Gwrthod cofrestru darparwr (adran 23).
- Gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol (adran 27).
- Cyfarwyddo darparwr mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (adran 37).
- Symud darparwr o gategori o'r gofrestr (adran 39).
- Pennu'r dyddiad y mae darparwr i'w dynnu o gategori o'r gofrestr (adrannau 40 a 41).
- Rhoi hysbysiad yn gwrthod datganiad terfyn ffioedd (adran 45).
- Cyfarwyddo darparwr mewn cysylltiad â methu â chydweithredu â'r Comisiwn neu gorff dynodedig fel sy'n ofynnol o dan adran 71.

Mae adran 77(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau mewn cysylltiad â ffurf, cynnwys a phroses cynnal adolygiadau. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn dal dyletswydd debyg i wneud darpariaeth o'r fath mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau CCAUC o dan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 77(4) yn nodi'r materion y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 77(3), ymhlith pethau eraill, ddarparu ar eu cyfer:

- Ar ba sail y gall adolygydd penderfyniadau wneud argymhellion
- Y mathau o argymhellion y gellid eu gwneud
- O fewn pa gyfnod y gellid gwneud cais am adolygiad

- Y weithdrefn i’w dilyn gan yr adolygydd/adolygwyr
- Y camau i’w cymryd gan y Comisiwn a/neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad

Byddai'r rheoliadau'n mabwysiadu dull sy'n debyg iawn i'r trefniadau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015, mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau o dan Ddeddf Addysg Uwch Cymru 2015.

Yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, ceir crynodeb isod o'r bwriad polisi presennol ynghylch y manylion sydd i'w rhagnodi yn y rheoliadau hyn:



| **Maes** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Y seiliau y caniateir i’r adolygydd/adolygwyr penderfyniadau wneud argymhellion i’r Comisiwn arnynt | • bod corff llywodraethu darparwr yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r mater y mae'n ceisio adolygiad ohono nad yw wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn o'r blaen;<br>• bod yr adolygydd o'r farn bod y Comisiwn wedi diystyru ffactor perthnasol y dylai fod wedi'i ystyried yn y broses o lywio ei benderfyniad; neu<br>• bod yr adolygydd o'r farn bod penderfyniad y Comisiwn yn anghymesur yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo. |
| Y mathau o argymhellion y caniateir iddynt gael eu gwneud | • y dylai'r Comisiwn ailasesu ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried -<br>  ○ unrhyw dystiolaeth ychwanegol a roddwyd i'r adolygydd penderfyniadau gan gorff llywodraethu'r sefydliad sy’n gofyn am adolygiad;<br>  ○ unrhyw ffactorau perthnasol y mae'r adolygiad o benderfyniad o'r farn nad yw wedi'u hystyried o'r blaen; neu<br>  ○ unrhyw resymau a allai fod gan yr adolygydd; penderfyniadau dros ystyried bod y penderfyniad a wnaed yn flaenorol yn anghymesur. |
| Y cyfnod y caniateir i gais gael ei wneud ynddo | • o fewn 40 diwrnod i'r darparwr gael ei hysbysu gan y Comisiwn o'i gamau gweithredu arfaethedig. |
| Y weithdrefn sydd i'w dilyn | • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr roi i’r Comisiwn (i) manylion y penderfyniad i gael ei adolygu; (ii) manylion ar ba |

| | |
|---|---|
| | sail y gwnaed y cais am adolygiad; a (iii) copi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y darparwr i gefnogi'r cais am adolygiad.<br>• dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ddarparu amserlen ddisgwyliedig i'r darparwr a'r Comisiwn ar gyfer cwblhau'r adolygiad o benderfyniad;<br>• gall yr adolygydd/adolygwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y Comisiwn a'r darparwr ac os ydynt yn gwneud hynny dylai fod yn ofynnol iddynt hysbysu'r Comisiwn a'r darparwr am gais o'r fath;<br>• i sicrhau bod adolygiadau o benderfyniadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, dylai pwynt terfyn o 28 diwrnod fod yn gymwys mewn perthynas â darparu gwybodaeth bellach i'r adolygydd/adolygwyr naill ai gan y Comisiwn neu'r darparwr;<br>• i sicrhau bod pob parti yn cael diweddariad ar hynt yr adolygiad, dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y darparwr i'r Comisiwn ac i'r gwrthwyneb;<br>• dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ystyried a yw'n briodol yng nghyd-destun adolygiad penodedig i dderbyn sylwadau gan y Comisiwn mewn ymateb i wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y darparwr a chan y darparwr mewn ymateb i wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y Comisiwn ac i hysbysu'r ddau barti yn unol â hynny;<br>• dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y darparwr neu'r Comisiwn;<br>• dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr baratoi adroddiad ar eu canfyddiadau, gan nodi'r argymhellion y dylid eu hanfon at y darparwr a'r Comisiwn. |
| Y camau sydd i'w cymryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad | • Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried adroddiad yr adolygydd/adolygwyr ac ailystyried eu penderfyniad i gymryd y camau penodedig sy'n destun yr adolygiad o benderfyniadau; |

| | |
|---|---|
| | • Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu'r darparwr ynghylch a yw'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig wedi'i weithredu o fewn cyfnod o 40 diwrnod o adroddiad yr adolygydd/adolygwyr a nodi'r rhesymau dros y camau gweithredu a gadarnhawyd. |

## Monitro cynaliadwyedd ariannol

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 78(1)(c) | Rheoliadau | Pŵer i bennu darparwyr addysg (yn ychwanegol at y rhai a nodir ar wyneb y Bil) y mae'n rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol mewn perthynas â hwy. | Negyddol |
| 78(2) | Rheoliadau | Pŵer i ddarparu ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a darparwyr yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach a ariennir gan y Comisiwn. | Negyddol |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 78 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol rhai darparwyr addysg drydyddol. O dan y ddyletswydd, rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a darparwyr yng Nghymru yn y sector addysg bellach nad ydynt wedi'u cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn.

Mae'r pwerau o dan adran 78(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd monitro ar gyfer darparwyr neu fathau o ddarparwyr yn y categorïau hyn.

Mae adran 78(1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y ddyletswydd monitro i fathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol nad ydynt yn cael eu nodi ar wyneb y Bil.

**Diben a bwriad y polisi**

Bydd y pwerau hyn yn sicrhau y gellir ymestyn dyletswydd y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar y cynaliadwyedd ariannol, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, i ddarparwyr addysg drydyddol heblaw am ddarparwyr cofrestredig neu ddarparwyr yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach sydd heb eu cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw ddarparwyr neu grwpiau o ddarparwyr a allai fod yn derbyn symiau sylweddol o arian oddi wrth y Comisiwn ond nad ydynt yn dod o dan y categorïau hyn gael eu dwyn o fewn cwmpas y ddyletswydd.

Mae'r pwerau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd ar gyfer darparwyr neu fathau o ddarparwyr o fewn y categorïau a bennir ar wyneb y Bil. Gallai hyn, er enghraifft, ganiatáu i'r ddyletswydd gael ei datgymhwyso i'r

Brifysgol Agored a fyddai, pe bai'r sefydliad yn cofrestru gyda'r Comisiwn, yn destun monitro cyfatebol gan y Swyddfa i Fyfyrwyr yn rhinwedd ei statws fel darparwr addysg uwch cofrestredig yn Lloegr. Byddai hyn yn osgoi dyblygu diangen a gwrthdaro posibl mewn trefniadau monitro.

Mae'r pwerau rheoleiddio hyn yn darparu dull o ddiogelu'r darpariaethau a nodir o dan adran 78 o'r Bil yn y dyfodol a sicrhau nad oes bylchau yn y modd y cymhwysir y ddyletswydd.

## Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 81(4) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dynodi darparwyr na fyddent yn cael eu hystyried yn sefydliad at ddibenion y Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith ei dynnu'n ôl. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 81 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparydd addysg uwch yng Nghymru yn 'sefydliad' at ddibenion y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwnnw. Ni fyddai darparwr o'r fath fel arfer yn cael ei ystyried yn 'sefydliad' o dan y Bil.

Caniateir i ddynodiad gael ei wneud ar gais gan y darparwr o dan sylw. Mae adran 76(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau a'u tynnu'n ôl, gan gynnwys materion sydd i'w hystyried wrth bwyso a mesur a ddylid gwneud dynodiad neu ei dynnu'n ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

**Diben a bwriad y polisi**

Gellir arfer y pŵer o dan adran 81 i ddynodi sefydliad sy'n darparu cyrsiau addysg uwch, ond nad yw'n ystyried ei hun yn "sefydliad" at ddibenion y Bil hwn, ac mae'n bosibl serch hynny y byddai'n dymuno cael ei gofrestru. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad o'r fath ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol ynghyd â'u cais. Caiff y rheoliadau hefyd bennu sut y mae cais i gael ei wneud (er enghraifft yn ysgrifenedig).

## Sicrhau a chyllido addysg drydyddol

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 85(3) | Rheoliadau | Pŵer i bennu categorïau o ddarparwyr cofrestredig y gall y Comisiwn roi cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant a wynebir at ddibenion darparu addysg uwch a chyfleusterau neu weithgareddau sy’n gysylltiedig â darparu addysg uwch. | Cadarnhaol |
| 85(4) | Rheoliadau | Pŵer i bennu’r gofynion sydd i’w bodloni gan gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon cyn y gall y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol i sefydliad mewn perthynas â darparu’r cwrs hwnnw. | Negyddol |
| 86(1) | Rheoliadau | Pŵer i bennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas ag ef. | Negyddol |
| 91(3) | Rheoliadau | Dyletswydd i bennu disgrifiad o addysg bellach a hyfforddiant perthnasol at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bersonau 19 oed a throsodd. | Cadarnhaol |
| 91(7)(b) | Rheoliadau | Pŵer i nodi disgrifiad o berson cymhwysol mewn perthynas â dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bersonau 19 oed a throsodd. | Cadarnhaol |
| 95(2) | Rheoliadau | Pŵer i wneud amod mai dim ond ar gyfer darparwyr sydd wedi’u cofrestru mewn categorïau penodol y gellir sicrhau cymorth ariannol o dan adrannau 94(1)(a) neu (b) at ddibenion penodedig ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i’r gofyniad i fod yn gofrestredig ar gyfer cyrsiau penodedig neu ddisgrifiad penodedig o gyrsiau. | Cadarnhaol |
| 96(6) | Rheoliadau | Pŵer i ddarparu eithriadau i'r gwaharddiad ar ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant rhag codi tâl ar (i) personau dros oedran ysgol gorfodol ac o dan 19 oed sy'n cael yr addysg bellach a'r hyfforddiant; a (ii) personau cymhwysol sy'n cael addysg a hyfforddiant perthnasol. | Cadarnhaol |
| 101(3) | Rheoliadau | Pŵer i wneud amod na chaiff y Comisiwn ond darparu adnoddau ariannol mewn perthynas â gwariant a wynebir mewn cysylltiad â darparu | Cadarnhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | prentisiaeth Gymreig gymeradwy i ddarparwyr a gofrestrwyd mewn categorïau a bennir yn y rheoliadau. | |
| 102(4) | Rheoliadau | Pŵer i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid cofrestru darparwr ar eu cyfer cyn y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol i'r darparwr mewn perthynas â gwariant at ddibenion (neu mewn cysylltiad ag) ymchwil neu arloesi. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 85 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu categorïau penodol o ddarparwyr cofrestredig (y "darparwyr penodedig"), at ddibenion cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr o'r fath. Mae adran 85(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau hwn, tra bod y pŵer o dan adran 85(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu na chaiff y Comisiwn ddarparu cyllid o dan yr adran hon ar gyfer gwariant a ysgwyddwyd mewn perthynas â darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon oni bai bod y cwrs yn bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau.

Mae adran 86 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu darpariaeth cyrsiau addysg uwch penodedig sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ar gyfer pobl sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru. Mae adran 86(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrsiau o'r fath trwy gyfeirio, ymhlith materion eraill, at y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs; y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs; a'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato.

Mae adran 91(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu addysg bellach a hyfforddiant perthnasol at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant o'r fath yn adran 91(1). Mae adran 91(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu personau cymhwysol y mae'n rhaid sicrhau cyfleusterau o'r fath ar eu cyfer.

Mae adran 95(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael eu cofrestru mewn categori penodedig er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan adran 94(1)(a) (darparu addysg bellach neu hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) neu adran 94(1)(b) (darparu addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru).

Pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn darparu cyllid o dan adran 94, mae adran 96 yn caniatáu iddynt osod telerau ac amodau. Mae adran 96(4) a (5) yn darparu bod yn rhaid i'r telerau ac amodau hynny wahardd:

- darparwr addysg bellach neu hyfforddiant sy'n addas i ofynion dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed rhag codi tâl ar y dysgwyr hynny sy'n derbyn yr addysg bellach neu'r hyfforddiant; a

- darparwr addysg a hyfforddiant perthnasol sy'n addas i ofynion personau cymhwysol rhag codi tâl ar y personau cymhwysol hynny sy'n cael yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw. Diffinnir "addysg a hyfforddiant perthnasol" a "phersonau cymhwysol" mewn rheoliadau a wneir o dan adran 91 o'r Bil.

Mae adran 101(1)(a) yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr prentisiaethau Cymreig cymeradwy, ac o dan adran 101(3) gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dderbynnydd cyllid o'r fath fod wedi'i gofrestru mewn categori penodedig ar y gofrestr.

Mae adran 102 yn caniatáu i'r Comisiwn gyllido categorïau penodol o ddarparwyr at ddibenion cefnogi ymchwil neu arloesi. Mae adran 102(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau hyn.

**Diben a bwriad y polisi**



Adran 85(3) a adran 102(4) – cyllid addysg uwch a ymchwil ac arloesi

Bwriedir, yn amodol ar wneud y rheoliadau arfaethedig o dan adran 23(2) (gweler Categorïau Cofrestru) a phennu'r ddau gategori cofrestru arfaethedig, rhagnodi mewn rheoliadau:

- dan adran 85(3) bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch gael eu cofrestru yn y categori "craidd" er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan y Comisiwn o dan adran 85 (cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch);
- dan adran 102(4) bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch gael eu cofrestru yn y categori "craidd" er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan y Comisiwn o dan adran 102 (cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi).

Adran 85(4)

Bwriedir gwneud rheoliadau o dan adran 85(4) o'r Bil yn darparu na ddylai'r Comisiwn ariannu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon oni bai eu bod wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Adran 86(6)

Ni fwriedir gwneud rheoliadau ar hyn o bryd o dan adran 86(6). Bwriad y pŵer hwn yw sicrhau y gellid mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth pe bai angen. Gall bylchau yn y ddarpariaeth godi oherwydd diffyg darparwyr addysg uwch penodedig (fel y'u diffinnir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 85(3)) sy'n gallu cyflawni angen a nodwyd. Er enghraifft, mae angen i gwrs arbenigol gael ei gyflwyno yng Nghymru neu ei gynnal gan nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, nad yw efallai'n gost-effeithiol i ddarparwyr penodedig eu cyflawni. Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn.

Adran 91

Mae adrannau 91(3) a 91(7)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cwmpas a chymhwystra ar gyfer dyletswydd newydd i gyllido addysg bellach i oedolion, a'u bwriad yw sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes yn cael ei ehangu'n briodol, yn enwedig i'r rhai fydd yn elwa fwyaf arnynt. Bwriad defnyddio is-ddeddfwriaeth i bennu cwmpas addysg a chymhwysedd perthnasol at ddibenion y ddyletswydd cyllido yw galluogi ehangu dros amser y cynnig addysg bellach a hyfforddiant i oedolion a gyllidir er mwyn mynd i'r afael â phatrymau angen sy'n esblygu.

Bydd y polisi ar gyfer y rheoliadau hyn yn ystyried yr ystyriaethau canlynol sydd i ddod:

- Argymhellion adroddiad sydd i'w gyhoeddi gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ynghylch dysgu gydol oes.
- Canlyniadau adolygiad arfaethedig o addysg oedolion fel yr addawyd yn y Rhaglen Lywodraethu.
- Barn a sylwadau rhanddeiliaid perthnasol.

Adran 95(2) a adran 101(3)

Fel y nodir yn y Categorïau Cofrestru uchod, nid polisi cyfredol y llywodraeth yw creu unrhyw gategorïau ar gyfer darparwyr nad ydynt yn darparu addysg uwch. Fodd bynnag, gall trefniadau rheoleiddio newid dros amser ac yn y dyfodol gall y gofrestr gynnwys categorïau’n ymwneud â darparwyr addysg bellach, hyfforddiant neu brentisiaethau Cymreig cymeradwy.

Pe bai’r angen yn codi, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau:

- dan adran 95(2) i bennu’r categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy’n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn o dan adran 94; neu
- dan adran 101(3) i bennu’r categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy’n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn o dan adran 101.

Adran 96(6)

Bydd datblygu unrhyw bolisi mewn perthynas â rheoliadau o dan adran 96(6) yn destun ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

## Cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 105(1) | Rheoliadau | Pŵer i bennu'r materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i'r arian gael ei basio gan bersonau a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio o dan adrannau 85, 86, 94, 101 or 102. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r Bil yn darparu i berson sy'n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adrannau 85(3)(a), 86(4)(a), 94(3)(a), 101(2)(a) or 102(4) allu trosglwyddo'r cyfan, neu ran, o'r cyllid hwn i gorff sy'n cydlafurio. Er mwyn i berson fod yn gorff sy'n cydlafurio, rhaid i'r Comisiwn fod wedi rhoi ei gydsyniad i'r person sy'n derbyn arian yn uniongyrchol gan y Comisiwn dalu adnoddau ariannol iddo.

Mae'r pŵer o dan adran 105(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i berson a gyllidir yn uniongyrchol drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio o dan y pwerau penodedig.

**Diben a bwriad y polisi**

Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r materion hynny y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth benderfynu cydsynio i berson a gyllidir yn uniongyrchol drosglwyddo adnoddau i gorff sy'n cydlafurio. Yn amodol ar ymgynghori, rhagwelir y gallai materion o'r fath gynnwys:

- Y rhesymau dros y trefniant cydlafurio a phriodoldeb y trefniant;
- Sut mae'r trefniant cydlafurio'n cyd-fynd â chynllun strategol y Comisiwn;
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y corff sy'n cydlafurio;
- Bod gan gynllun diogelu dysgwyr y corff a gyllidir ddarpariaeth ddigonol pe bai'r cydlafurio'n dod i ben am unrhyw reswm;
- Digonolrwydd y trefniadau sicrwydd rhwng y darparwr a gyllidir a'r corff sy'n cydlafurio;
- Sefyllfa ariannol corff cydlafurio arfaethedig;
- Gallu'r corff cydlafurio arfaethedig i gyflawni'r hyn a gynigir; a
- Digonolrwydd y cyfleusterau neu'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael yn y corff cydlafurio arfaethedig.

Mae'n debygol y bydd angen diwygio natur y materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth roi ei gydsyniad dros amser wrth i drefniadau cydlafurio newydd ddatblygu neu yng ngoleuni unrhyw faterion a allai fod wedi codi gyda'r trefniadau cydsynio presennol. Bydd y pŵer rheoleiddio hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r materion penodedig pe bai angen gwneud hynny.

## Cyfarwyddydau cymorth ariannol

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 106 | Cyfarwyddyd | Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cymorth ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â pherson perthnasol | Dim gweithdrefn |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn mewn cysylltiad â darparu cymorth ariannol a ddarperir i berson perthnasol o dan adran 85, 86, 94, 100, 101, 102, pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod materion ariannol y person perthnasol wedi cael eu camreoli neu yn cael eu camreoli. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir gan Weinidogion Cymru.

Mae person perthnasol yn ddarparwr cofrestredig neu'n berson (ac eithrio darparwr cofrestredig neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) a gyllidir gan y Comisiwn o dan adrannau 85(2), 86, 94, 98, 100, 101 neu 102(2).

Cyn dyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r person perthnasol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd y brys y mae angen rhoi'r cyfarwyddyd iddo, neu fod yr amgylchiadau penodol yn golygu y byddai'r ymgynghoriad yn tanseilio diben y cyfarwyddyd.

Rhaid cadw unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon o dan adolygiad. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd.

**Diben a bwriad y polisi**

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i ddarparwyr addysg uwch os yw'n ymddangos bod materion ariannol y darparwr hwnnw wedi cael eu camreoli, neu'n cael eu camreoli. Mae adran 106 yn adeiladu ar y trefniadau presennol ac yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu cymryd camau priodol mewn amgylchiadau lle y gallai fod angen diogelu buddiannau myfyrwyr, diogelu arian cyhoeddus neu atal niwed i enw da'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn a dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y disgwylir iddynt gael eu defnyddio.

## Prentisiaethau

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 107(4) | Rheoliadau | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu’r amodau y mae’n rhaid i brentisiaeth eu bodloni i fod yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy. | Cadarnhaol |
| 108(1)(c) | Rheoliadau | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu amodau pellach y mae’n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni i fod yn gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. | Cadarnhaol |
| 109(1) | Rheoliadau | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu’r disgrifiad o’r hyn sydd wedi’i gategoreiddio fel prentisiaeth Gymreig amgen. | Cadarnhaol |
| 114(6) | Rheoliadau | Pŵer Gweinidogion Cymru i’w gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn gynnwys rhagor o wybodaeth yn y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau. | Negyddol |
| 115(3) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi am gyhoeddi tystysgrif brentisiaeth. | Negyddol |
| 120(5) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cymhwyso unrhyw ddarpariaeth Rhan 4 (prentisiaethau), gydag addasiadau, i gytundeb prentisiaeth pan fydd unigolyn yn ymgymryd â chyflogaeth y Goron neu i unigolyn sy'n gweithio (neu'n bwriadu gweithio) o dan gytundeb o'r fath. | Negyddol |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau uchod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r paramedrau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r system brentisiaethau newydd. Maent yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru bennu a diwygio:

- yr amodau y mae’n rhaid i brentisiaeth eu bodloni i fod yn *brentisiaeth Gymreig gymeradwy;*
- yr amodau eraill y mae’n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni i fod yn *brentisiaeth Gymreig gymeradwy;*
- y disgrifiad o brentisiaeth Gymreig amgen.

Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn gallu:

- ychwanegu gofynion gwybodaeth newydd at y gofrestr o Brentisiaethau Cymreig cymeradwy sy’n cael ei chadw gan y Comisiwn;
- awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth;

- cymhwyso unrhyw ddarpariaeth Rhan 4 o'r Bil gydag addasiadau i gytundeb prentisiaeth pan fydd unigolyn yn ymgymryd â chyflogaeth y Goron neu i unigolyn sy'n gweithio (neu'n bwriadu gweithio) o dan gytundeb o'r fath.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 107 o'r Bil yn darparu ar gyfer y diffiniad o brentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan adran 98(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn sicrhau bod prentisiaeth yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy. Diben y pŵer hwn yw sicrhau bod y nodweddion sy'n diffinio Prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn gallu cael eu diwygio dros amser a'u bod yn parhau i fod yn briodol yng nghyd-destun newidiadau yn ddarpariaeth o brentisiaethau Cymreig. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i ymateb i newidiadau i'r economi neu ddarparu prentisiaethau.

Mae adran 108 yn darparu ar gyfer y diffiniad o gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 108(1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amodau pellach y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy eu bodloni yn ogystal â'r rhai a bennir ar wyneb y Bil. Bwriad y pŵer hwn yw sicrhau bod y diffiniad o gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn parhau i fod yn gyfoes, er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i bennu bod cytundeb o'r fath yn cynnwys neu'n cyfeirio at ddatganiad o fanylion cyflogaeth a gyhoeddwyd o dan adran 1 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Mae adran 109 yn darparu ar gyfer ystyr prentisiaeth Gymreig amgen. Mae'r pŵer o dan adran 109(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n darparu ar gyfer yr hyn a olygir wth brentisiaeth Gymreig amgen. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i bennu trefniadau gweithio amgen er mwyn ystyried hunangyflogaeth neu ymdrin â sefyllfaoedd lle mae unigolion sy'n gweithio o dan gytundeb prentisiaeth wedi cael eu diswyddo yn ystod eu prentisiaeth, gan efelychu (yn rhannol) darpariaethau cyfatebol sy'n sylfaen i weithrediad y system brentisiaethau bresennol.

Mae adran 114 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gadw cofrestr o'r fframweithiau prentisiaeth sy'n cael eu cyhoeddi o dan adran 113 o'r Bil. Bydd y pŵer o dan adran 114(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu gofynion gwybodaeth newydd at y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau cyhoeddedig. Mae hyn yn sicrhau bod modd addasu'r gofrestr sy'n cael ei chadw gan y Comisiwn dros amser i ymateb i newidiadau economaidd neu gymdeithasol.

Mae adran 115 o'r Bil yn galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi tystysgrif os yw unigolyn wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy, a'i fod yn gwneud cais i'r Comisiwn am dystysgrif. Hefyd, mae'n darparu bod y Comisiwn yn gallu codi ffi am gyhoeddi tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif, ond dim ond os yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn caniatáu codi ffi. Bydd y pŵer o dan adran 115(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi codi ffioedd gan y Comisiwn am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth, neu gopi o dystysgrif, a phennu'r ffi y gellir ei chodi. Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru godi ffi i gyflwyno tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif, ac mae'r pŵer hwn yn galluogi'r Comisiwn i barhau i wneud yr un peth.

Mae adran 120 o'r Bil yn darparu bod unigolyn sy'n cael ei gyflogi fel gwas y Goron yn gallu ymrwymo i gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan adran 120(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a gweision y Goron. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth ar sail statws cyflogaeth gwahanol gweision y Goron ac yn caniatáu i elfennau o Ran 4 o'r Bil fod yn berthnasol i weision y Goron, gydag addasiadau.

**Cyfiawnhad dros ddirprwyo**

Mae angen i brentisiaethau allu ymateb yn hyblyg i anghenion sy'n newid o safbwynt technoleg a'r farchnad. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 107(4), 108(1)(c) a 109(1) yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gadw trosolwg strategol o'r hyn sy'n diffinio prentisiaeth Gymreig gymeradwy, cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a phrentisiaeth Gymreig amgen. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau bod ansawdd a chadernid system brentisiaethau Cymru yn cael eu cynnal yn y dyfodol drwy nodi unrhyw ofynion eraill y mae angen i brentisiaethau a chytundebau prentisiaeth eu bodloni er mwyn bod yn brentisiaethau Cymreig cymeradwy a chytundebau prentisiaethau Cymreig cymeradwy. Gallai'r gofynion hyn newid dros amser. Mae adran 120(5) yn angenrheidiol er mwyn galluogi elfennau o Ran 4 i fod yn berthnasol, gydag unrhyw addasiadau gofynnol, i weision y Goron ar sail eu statws cyflogaeth annodweddiadol. Mae nifer o'r pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o'r Bil yn datblygu, neu'n ailddeddfu, pwerau gwneud rheoliadau presennol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 sy'n cael eu defnyddio i weithredu system brentisiaethau bresennol Cymru.

Mae'n bosibl y bydd angen i elfennau o'r system reoleiddio sy'n sylfaen i brentisiaethau Cymreig cymeradwy newid dros amser wrth i fframweithiau prentisiaethau ddatblygu er mwyn diwallu anghenion newidiol economi Cymru.  Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 114(6) a 115(4) yn angenrheidiol i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i ofynion gwybodaeth y gofrestr prentisiaethau a'r ffioedd y gall y Comisiwn eu codi am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth, sy'n gallu newid dros amser.

## Cwynion dysgwyr

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 124(2) | Rheoliadau | Diwygio adran 11 o Ddeddf Addysg Uwch 2004, gan fewnosod pŵer i bennu ‘sefydliadau cymhwysol’ yn ychwanegol i’r rhai a nodir ar wyneb y Ddeddf y gellir gwneud cwynion mewn perthynas â hwy gan fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ac a ystyrir o dan y cynllun cwynion myfyrwyr o dan y Ddeddf honno. | Negyddol |

**Disgrifiad o’r pwerau**



Mae adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (“Deddf 2004”) yn caniatáu dynodi corff i weithredu cynllun cwynion myfyrwyr. Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yw’r corff gweithredu dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr nad ydynt wedi’u datrys yng Nghymru a Lloegr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol yn y drefn honno. Ar hyn o bryd, mae rôl Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yn ymestyn i ‘sefydliadau cymhwysol’ yn ôl y diffiniad yn adran 11 o Ddeddf 2004.

Mae adran 124(2) o'r Bil yn diwygio adran 11 o Ddeddf 2004 sy'n mewnosod, yn is-adran (2), bŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu 'sefydliadau cymhwysol' ychwanegol at ddibenion y cynllun cwynion myfyrwyr.

Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau:

- darparwr cofrestredig, neu
- darparwr addysg drydyddol yng Nghymru (ac eithrio darparwr cofrestredig) sy’n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan yr adrannau canlynol o’r Bil:
    - 86(3)(a) (cyrsiau addysg uwch),
    - 95(1)(a) (addysg bellach neu hyfforddiant), neu
    - 101(1)(a) (prentisiaethau)

Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu awdurdodau lleol mewn perthynas â’r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion gan nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y darpariaethau penodedig

**Diben a bwriad y polisi**

Nod y polisi yw ymestyn cylch gwaith Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a’r ehangder mynediad i’r cynllun cwynion i ddysgwyr sy’n ymgymryd â’r holl gyrsiau a gyllidir gan y Comisiwn fel y nodir. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid ar fanylion ac ymarferoldeb ymestyn y cynllun cyn i’r rheoliadau gael eu gwneud.

Bydd hyn yn galluogi cyflwyno darparwyr i’r cynllun cwynion myfyrwyr yn raddol, gan roi amser i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr unigol adeiladu eu capasiti.

## Rhannu data

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 128(1)(l) | Rheoliadau | Pŵer i bennu personau heblaw'r rhai a nodir ar wyneb y Bil fel personau sy'n gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. | Negyddol |
| 130(5) | Canllawiau | Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran hon. | Dim gweithdrefn |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 128 yn cynnwys rhestr o personau, cyrff statudol a phersonau sy'n arfer swyddogaethau statudol a all rannu gwybodaeth gyda'r Comisiwn, at ddibenion arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn. Caiff y Comisiwn hefyd roi gwybodaeth, am unrhyw fater mewn perthynas â'i swyddogaethau, i'r rhai a restrir yn yr adran hon ac unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn briodol. Caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu personau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth â'r Comisiwn o dan yr adran hon.

Mae adran 130 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r wybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig a geir o dan adran 129 ac mae'n darparu y gellir rhannu'r wybodaeth â "pherson cymeradwy". Person cymeradwy yw:

- corff a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 130 o'r Bil, sy'n defnyddio neu'n lledaenu gwybodaeth at ddibenion ymchwil; neu
- unigolyn a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru neu gorff cymeradwy at ddibenion adran 130 o'r Bil.

Mae Gweinidogion Cymru'n ddarostyngedig i ddyletswydd i gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau sydd i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo corff, neu ymchwilydd unigol, i fod yn "berson cymeradwy" mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig at ddibenion ymchwil.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu personau eraill nad ydynt wedi'u crybwyll ar wyneb y Bil a fydd yn gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. Byddai hefyd yn caniatáu pennu awdurdodau newydd.

Gallai enghreifftiau o'r math o ffactorau y gellir eu cynnwys mewn canllawiau o dan adran 130(5) mewn perthynas â chorff sy'n berson cymeradwy gynnwys:

- A yw'r corff yn sefydliad academaidd cydnabyddedig, yn sefydliad sector cyhoeddus neu'n sefydliad ymchwil ar restr Cynghorau Ymchwil y DU o sefydliadau ymchwil annibynnol cymwys (gan nodi na fyddai ymchwil at ddibenion masnachol);
- A yw'r corff yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau perthnasol i sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio, ei drin, ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel gan gynnwys defnyddio amgryptio lle bo angen;
- A yw'r corff yn gweithredu o dan lywodraethiant priodol.

Gallai enghreifftiau o'r math o ffactorau y gellir eu cynnwys yn y canllawiau hyn o dan adran 130(5) mewn perthynas ag unigolyn sy'n berson cymeradwy gynnwys:

- A yw'r unigolyn yn gysylltiedig â sefydliad academaidd cydnabyddedig, sefydliad sector cyhoeddus neu sefydliad ymchwil ar restr Cynghorau Ymchwil y DU o sefydliadau ymchwil annibynnol cymwys at ddibenion ymchwil anfasnachol;
- A oes gan yr unigolyn arbenigedd perthnasol mewn cynnal ymchwil gyda data diogel/gweinyddol ac mewn amgylchedd diogel neu'n barod i gael hyfforddiant.

## Llywodraethu AU – offerynnau ac erthyglau Llywodraeth ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 133(2) | Rheoliadau | Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, baragraffau 2 i 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr offerynnau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch | Cadarnhaol |
| 134(2) | Rheoliadau | Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, adran 125(2) i (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr erthyglau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch | Cadarnhaol |



**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 125(2) yn gwneud darpariaeth i'r pwerau gwneud gorchymyn sydd eisoes gan Weinidogion Cymru o dan adran 124A(9) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (Deddf 1988) gael eu hymestyn i gynnwys Atodlen 7A yn gyfan ac eithrio paragraff 1. Mae Atodlen 7A yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer cynnwys offerynnau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch a wneir gan y Cyfrin Gyngor.

O dan adran 124A(9) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn gallu diwygio neu ddiddymu unrhyw rai o baragraffau 3 i 5 ac 11 o Atodlen 7A trwy orchymyn. Mae'r paragraffau hyn yn ymwneud ag aelodaeth o'r Gorfforaeth Addysg Uwch ac yn benodol, ei faint, ei gyfansoddiad a phenodiad ei aelodau. Mae paragraff 1 yn galluogi offeryn llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch i rymuso'r Gorfforaeth i newid ei henw gyda chydsyniad y Cyfrin Gyngor.

Mae adran 134(2) yn cyflwyno gwelliannau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru, trwy orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â chynnwys erthyglau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch. Yn fras, mae'r erthyglau'n pennu dosbarthiad swyddogaethau rhwng bwrdd y llywodraethwyr, y Pennaeth a'r Bwrdd Academaidd ac yn rheoleiddio cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau'r gorfforaeth.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio Deddf 1988 ac yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu'r gofynion statudol presennol a osodir ar gynnwys offeryn llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch. Y prif nod polisi y tu ôl i'r darpariaethau hyn yw mynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar faterion technegol mewn

Cyfraith Elusennau sy'n ymwneud â diwygio dogfennau llywodraethu ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn benodol, mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn argymell dileu'r gofynion statudol presennol a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch fel y gallant ymateb i ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau yn yr un modd â mathau eraill o sefydliad addysg uwch nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol cyfatebol.

O dan y trefniadau presennol, dim ond nifer cyfyngedig o'r gofynion a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch o dan Atodlen 7A o Ddeddf 1988 y gall Gweinidogion Cymru eu diwygio. Dyma'r gofynion o dan baragraffau 3 i 5 a pharagraff 11 o'r Atodlen. Mae hyn yn golygu na ellid gwneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r gofynion hynny sydd y tu allan i gwmpas y pwerau presennol yn yr un modd nac i'r un amserlen gan y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar wahân arnynt. Bydd y darpariaethau hyn yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ymestyn pwerau gwneud gorchmynion cyfredol Gweinidogion Cymru fel eu bod yn gymwys i'r holl ofynion statudol a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch o dan Atodlen 7A (ac eithrio paragraff 1) ac i'r gofynion o dan adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988.

Bwriad hyn fydd creu dull mwy hyblyg ac ymatebol a fydd yn:

- caniatáu i newidiadau yn y dyfodol i unrhyw un neu'r cyfan o'r gofynion statudol sydd o fewn cwmpas y pwerau estynedig newydd gael eu hystyried yn yr un modd a'u gwneud drwy orchymyn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru;
- dileu'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol ar wahân i newid y gofynion hynny nad ydynt o fewn cwmpas y pwerau presennol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- caniatáu i unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gael eu gwneud yn gyflymach yn y dyfodol na phe bai angen deddfwriaeth sylfaenol ar wahân ar gyfer newidiadau i'r gofynion hynny sydd allan o gwmpas ar hyn o bryd.

Bydd gorchymyn a gyflwynir gan Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau rhagnodedig yn Atodlen 7A neu adrannau 125(2) i (4) gan ddefnyddio'r pwerau newydd hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud gorchymyn. Ar hyn o bryd, mae gorchymyn o dan adran 124A(9) o Ddeddf 1988 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r newid yn y weithdrefn yn adlewyrchu cwmpas cynyddol y pwerau sy'n effeithio ar ddarpariaethau mewn Deddf Seneddol.

## Y Brifysgol Agored

| Adran | Ffurf | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 140 | Rheoliadau | Pŵer i wneud amod i'r Brifysgol Agored gael ei thrin fel sefydliad yng Nghymru at ddiben darpariaethau penodol o dan y Bil hwn | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Nid yw'r Brifysgol Agored yn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" oherwydd nad yw ei gweithgareddau yn cael eu cynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer trin y Brifysgol Agored fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu a wneir o dan y Ddeddf. O dan y rheoliadau, gall Gweinidogion Cymru addasu effaith unrhyw ddarpariaeth, a bennir yn y Rheoliadau hynny, i'r graddau y mae'n gymwys i'r Brifysgol Agored, boed hynny fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru neu fel darparwr cofrestredig, pe bai hynny'n digwydd.

**Diben a bwriad y polisi**

Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch mwyaf yn y DU, a'r unig ddarparwr addysg uwch mawr sy'n gweithredu ar draws pedair gweinyddiaeth y DU. Er bod gan y Brifysgol Agored bresenoldeb sylweddol yng Nghymru, nid yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru at ddibenion y Bil. Gallai newidiadau i'r cyllid a'r modd y rheoleiddir y Brifysgol Agored yng ngwledydd eraill y DU gael effaith ar y ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn cael ei gyllido a'i reoleidido yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Brifysgol Agored i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o gymhwyso gwahanol ddarpariaethau'r Bil i'r Brifysgol Agored. Gallai hyn fod er mwyn cymhwyso'r amodau cofrestru, y cynlluniau diogelu dysgwyr a darpariaethau eraill i'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau cyllid a gwarchodaeth i ddysgwyr yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Felly, mae'n fwy priodol defnyddio is-ddeddfwriaeth i gymhwyso darpariaethau yn y Bil hwn i'r Brifysgol Agored mewn perthynas â darpariaeth y Brifysgol yng Nghymru ac i ddiwygio'r modd y mae'r Bil yn gymwys i'r Brifysgol Agored mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ledled y DU.

# Offerynnau Statudol Negyddol Arfaethedig sydd ag Adroddiadau Clir

## 06 Rhagfyr 2021

## Pn(6)002 - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol Arfaethedig

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 31(1)(a) a pharagraff 27 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 5 o Atodiad 15 i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU ("CMCh"). Mae Atodiad 15 i'r CMCh yn gwneud darpariaeth ar gyfer masnachu gwin ac mae Erthygl 5 yn darparu ar gyfer mesurau trosiannol sy'n ymwneud â labelu a rhoi ar y farchnad win a gynhyrchwyd cyn dyddiad dod i rym y CMCh. Mae Rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 i sicrhau y gellir parhau i werthu gwin hwnnw.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Deddf Wreiddiol:**Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020
**A Fodlonwyd y Gofynion Sifftio:** Do

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Eitem 4.1

# SL(6)087 – Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru)(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") i sicrhau cydymffurfiad â'r cytundeb ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE, y cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd ("y Cytundebau") a'r trefniant o ran yr Ardal Deithio Gyffredin.

Mae'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd ('yr Athrofa'), sydd wedi'i lleoli yn Fflorens yn yr Eidal, yn athrofa ryngwladol ar gyfer ymchwil ac addysgu ôl-ddoethurol ac ôl-raddedig a sefydlwyd gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r cymorth ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n mynd i'r Athrofa yn cael ei ddarparu gan Reoliadau 2014. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond dyfarnu cymorth i un myfyriwr cymwys ym mhob blwyddyn academaidd

Mae'r Rheoliadau yn dileu cymhwystra gwladolion yr UE ar gyfer cymorth ac yn rhoi hawliau i'r dinasyddion hynny o dan y Cytundebau.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol yn nodi mai un o'r prif ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yw newid y dyddiad olaf i wneud cais o dan Reoliadau 2014 i 28 Chwefror. Nid yw'n ymddangos bod y Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i newid y dyddiad cau i wneud cais. Mae anghysondeb, felly, rhwng yr hyn y mae'r Rheoliadau'n ei gynnwys a'r hyn y mae'r Nodyn Esboniadol yn ei nodi.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 11(12) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff 9B newydd (Gwladolion o'r Deyrnas Unedig) yn Atodlen 1 i Reoliadau 2014. Mae paragraff 9B(1)(b)(ii) yn cynnwys y testun:

> *"ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn y dyddiad perthnasol"*

Nid yw'n eglur a yw'r testun hwn yn rhan o is-baragraff (ii) neu baragraff (b) ac fe fyddai yr un mor berthnasol i is-baragraffau (i) a (ii). Ym mharagraff 9BA newydd, cymerir y dull olaf.

## Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 289D o'r rheolau mewnfudo yn darparu ar gyfer caniatâd cyfyngedig pellach i aros am gyfnod nad yw'n hwy na 30 mis mewn perthynas ag ymgeisydd nad yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer caniatâd amhenodol i aros fel dioddefwr trais domestig. Ni chyfeirir at y ddarpariaeth hon yn is-baragraff cyntaf y diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" *a* fewnosodwyd yn Rheoliadau 2014 gan y Rheoliadau hyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan is-baragraff (b) o'r diffiniad hwnnw, sy'n cynnwys cyfeiriad at baragraff D-DVILR.1.2 yn Atodiad FM o'r rheolau mewnfudo. O dan baragraff D-DVILR.1.2, darperir ar gyfer caniatâd cyfyngedig pellach i aros am gyfnod nad yw'n hwy na 30 mis. Mae'r dull hefyd yn wahanol i'r dull a gymerir o dan is-baragraff (c) o'r diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" mewn perthynas â phartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi dioddef trais domestig. Yn yr achos hwnnw mae darpariaeth debyg yn rhoi caniatâd cyfyngedig (o dan baragraff 41 o'r atodiad yn rheolau mewnfudo ynghylch y Lluoedd Arfog).

Nid yw'n glir pam mae person a gafodd ganiatâd cyfyngedig o dan baragraff 289D o'r rheolau mewnfudo y tu allan i gwmpas y diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" pan fydd person a gafodd ganiatâd cyfyngedig o dan baragraffau D-DVILR.1.2 o Atodiad FM neu baragraff 41 o'r atodiad ynghylch y Lluoedd Arfog, o fewn cwmpas y diffiniad hwnnw.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliadau 11(2)(c) a (d) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod y testun "*, y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio*" i mewn i is-baragraffau (7) ac (8) o baragraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2014. Mae is-baragraffau (7) ac (8) o baragraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2014 eisoes yn cynnwys y geiriad "*yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar*". Nid yw'n glir, felly, pam fod "*y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig yn ei ffurfio*" wedi ei ailadrodd yn y darpariaethau hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Rhagfyr 2021**

# SL(6)091 - Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Bwriadwyd i bolisi cynllunio cenedlaethol newydd ar gyfer perygl o lifogydd ddod i rym at ddibenion cynllunio ar 1 Rhagfyr 2021, ynghyd â Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio. Roedd y gyfres o newidiadau yn cynnwys cyflwyno meini prawf penodol ac roedd yn rhaid ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rhai materion yn ymwneud â datblygu a'r perygl o lifogydd

Yn dilyn newid polisi gan Lywodraeth Cymru, ni fydd y trefniadau newydd yn dod i rym mwyach ar 1 Rhagfyr 2021 a bydd y map cyngor polisi a datblygu presennol yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 trwy ddileu'r darpariaethau sy'n cynnwys gofynion i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygu a'r perygl o lifogydd yn unol â'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, gan na fydd yn dod i rym mwyach ar 1 Rhagfyr 2021.

Effaith y diwygiadau hyn yw y bydd y gofynion presennol i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer datblygu a'r perygl o lifogydd yn parhau.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 23 Tachwedd 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol:

> *"...mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn gohebiaeth a chyfathrebiadau gan awdurdodau lleol, yn lleisio pryderon dilys a rhesymol ynghylch y trefniadau i TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym ar 1 Rhagfyr. Roedd y rhain wedi bod yn destun 'lansiad anffurfiol' a oedd yn para am naw wythnos, yn dilyn eu rhyddhau'n anffurfiol i randdeiliaid ar 29 Medi. Roedd y cyfnod o naw wythnos yn caniatáu pontio rhwng fframweithiau polisi cyfredol a rhai newydd, i gydnabod y byddai llawer o geisiadau cynllunio wedi cael eu gwneud ar sail y fframwaith polisi presennol, h.y. fersiwn 2004 o TAN 15 a'r Map Cyngor Datblygu. Roeddem yn disgwyl y gellid bod wedi penderfynu ynghylch y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd eisoes, ac a oedd yn y system, erbyn 30 Tachwedd, ac felly ni fyddai modd i'r cyngor polisi newydd effeithio'n anfwriadol arnynt.*
>
> *Mae awdurdodau lleol a'r diwydiant datblygu wedi dangos nad yw'r cyfnod pontio o naw wythnos wedi bod yn ddigonol at ddibenion galluogi trosglwyddo i'r fframwaith polisi newydd mewn modd trefnus...*
>
> *... mae'r oedi wrth wneud TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn weithredol wedi golygu y bu'n rhaid hepgor darpariaethau sy'n ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru a datblygu a pherygl llifogydd o Orchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021. "*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn hwn yn darparu na pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol: Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân wedi cael ei baratoi mewn perthynas â Gorchymyn Diwygio 2021, gan ei fod yn dirymu diwygiadau i'r DMPWO a DNSPO (yng Ngorchymyn 2021) mewn perthynas ag ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd cyn iddynt ddod i rym. Ystyrir bod hwn yn welliant ar sail ffeithiau ac yn un sy'n adlewyrchu'r bwriad polisi i barhau i ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio ar ôl 1 Rhagfyr; gyda'r gofynion i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn parhau i fod fel y maent ar hyn o bryd.*

*Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol cynhwysfawr yn cael ei gynnal fel rhan o offeryn statudol yn y dyfodol ynghylch diwygiadau i'r gofyniad i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd ag CNC ac awdurdodau lleoli gasglu rhagor o dystiolaeth i lywio'r newidiadau hyn yn y dyfodol cyn y gall Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym at ddibenion gwneud penderfyniadau. "*

Fodd bynnag, mae'r Nodyn Esboniadol i'r Gorchymyn yn darparu bod asesiad effaith reoleiddiol *wedi* cael ei baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. A all Llywodraeth Cymru esbonio'r anghysondeb hwn rhwng y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Gorchymyn hwn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd yr angen i Orchymyn Diwygio 2021 ddod i rym cyn 1 Rhagfyr (h.y. cyn i ddarpariaethau ddod i rym a fyddai wedi diweddaru'r gofyniad i ymgynghori ag CNC fel ei fod yn cyfeirio at y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio), nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y darpariaethau diwygio hyn.*

*Er gwaethaf hyn, nid yw'r darpariaethau diwygio hyn yn cael unrhyw effaith. Mae Gorchymyn Diwygio 2021 yn dirymu'r diwygiadau i'r DMPWO a'r DNSPO (yng Ngorchymyn 2021) mewn perthynas ag ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd cyn iddynt ddod i rym. O ganlyniad, bydd ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn parhau i gael ei wneud yn unol â'r Map Cyngor Datblygu.*

*Drwy ddychwelyd mapio a deddfwriaeth yn ôl i'r sefyllfa ddiofyn, bydd yn caniatáu i ragor o waith gael ei wneud ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a chydag awdurdodau lleol, i sicrhau ei fod yn gadarn ac yn addas i'r diben wrth ystyried modelau perygl llifogydd lleol sy'n ymgorffori amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd. Bydd yn sicrhau mewn modd effeithiol fod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol o ran ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau sydd mewn parthau llifogydd yn y map llifogydd newydd yn cael eu gwneud ar sail y dystiolaeth orau bosibl."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran yr ail bwynt adrodd ar rinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf:
Ein cyf: MA/JJ/3967/21

Elin Jones AC
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Tachwedd 2021

Annwyl Lywydd

**Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol y cyfeirir ato uchod yn dod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 yn cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt gefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith polisi cynllunio newydd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Roedd y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio i fod i gael eu cyhoeddi ar 1 Rhagfyr. Roedd y fframwaith newydd hwn yn golygu bod angen newid technegol i'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n sicrhau yr ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), prif gynghorydd y Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac adnoddau naturiol, diwydiant a'r sector cyhoeddus ehangach, ar geisiadau cynllunio lle y gall fod yn berthnasol ystyried perygl llifogydd.

Ar 25 Hydref llofnodais Orchymyn a fyddai'n sicrhau parhad mewn perthynas â'r mathau o geisiadau cynllunio a fyddai'n destun ymgynghori ag CNC, yn ogystal â chreu gofynion newydd i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub[1].

Ers i'r Gorchymyn gael ei osod, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn gohebiaeth a chyfathrebiadau gan awdurdodau lleol, yn lleisio pryderon dilys a rhesymol ynghylch y

[1] Nid effeithir ar y darpariaethau sy'n ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub yng Ngorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 gan y digwyddiadau diweddar, ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a drafodir yn y llythyr hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

trefniadau i TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym ar 1 Rhagfyr. Roedd y rhain wedi bod yn destun 'lansiad anffurfiol' a oedd yn para am naw wythnos, yn dilyn eu rhyddhau'n anffurfiol i randdeiliaid ar 29 Medi. Roedd y cyfnod o naw wythnos yn caniatáu pontio rhwng fframweithiau polisi cyfredol a rhai newydd, i gydnabod y byddai llawer o geisiadau cynllunio wedi cael eu gwneud ar sail y fframwaith polisi presennol, h.y. fersiwn 2004 o TAN 15 a'r Map Cyngor Datblygu. Roeddem yn disgwyl y gellid bod wedi penderfynu ynghylch y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd eisoes, ac a oedd yn y system, erbyn 30 Tachwedd, ac felly ni fyddai modd i'r cyngor polisi newydd effeithio'n anfwriadol arnynt.

Mae awdurdodau lleol a'r diwydiant datblygu wedi dangos nad yw'r cyfnod pontio o naw wythnos wedi bod yn ddigonol at ddibenion galluogi trosglwyddo i'r fframwaith polisi newydd mewn modd trefnus. Ymhlith y mathau o gynlluniau y gallai'r TAN 15 newydd, sy'n dod i rym ar 1 Rhagfyr, gael effaith andwyol arnynt mae cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, sydd â'r nod o sicrhau bod cymunedau'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn well. Pryder arall a leisiwyd gan awdurdodau lleol yn benodol yw eu bod yn teimlo nad ydynt wedi cael y cyfle i gyfrannu tystiolaeth a gwybodaeth leol yn llawn at y Map Llifogydd Cenedlaethol ar gyfer Cynllunio. Yn wahanol i'r Map Cyngor Datblygu blaenorol, mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd, gan arwain at barthau llifogydd mwy o lawer mewn rhai ardaloedd. Bydd oedi wrth gyhoeddi TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn caniatáu mireinio'r gwaith mapio a nodi strategaethau addasu priodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Mae'r oedi wrth wneud TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn weithredol wedi golygu y bu'n rhaid hepgor darpariaethau sy'n ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru a datblygu a pherygl llifogydd o Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021. I wneud hynny, byddaf yn gosod Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021, i ddod i rym ar 25 Tachwedd 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Eitem 4.3

# SL(6)092 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r [Rheoliadau <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38410>](https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38410) hyn yn dirymu Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae Rheoliadau 2021 yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â gwerth ardrethol eiddo annomestig. Effaith Rheoliadau 2021 yw nad yw trethdalwyr eiddo annomestig yng Nghymru yr effeithir arnynt gan:

1. ymateb Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i'r coronafeirws;

2. unrhyw ofyniad, cyngor neu ganllawiau mewn ymateb i'r coronafeirws gan unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r DU, neu

3. fesurau a gymerir i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch,

yn gallu dyfynnu'r materion hynny fel rhai sy'n achosi newid perthnasol mewn amgylchiadau at ddibenion apelio o ran gwerth ardrethol eiddo annomestig ar restrau ardrethu 2017.

Bydd y darpariaethau yn Rheoliadau 2021 yn cael eu disodli gan ddarpariaethau ar gyfer Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) ("y Bil"). Bydd Rheoliadau 2021 yn cael eu dirymu ar y diwrnod y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y posibilrwydd y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 25 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Daw'r offeryn statudol hwn i rym… unwaith y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) ac mae risg y bydd hynny'n digwydd o fewn 21 diwrnod i osod yr offeryn statudol hwn. Y rhesymeg yw rhoi eglurder o ran y gyfraith gan y byddai darpariaethau yn y Bil yn disodli Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (y Rheoliadau presennol) a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-3755-21

Elin Jones, AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**RHEOLIADAU PRISIO AR GYFER ARDRETHU (CYMRU) (CORONAFEIRWS) (DIRYMU) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu bod posibilrwydd y daw'r offeryn statudol hwn i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Gwneir yr offeryn statudol hwn o baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd yn dod i rym unwaith y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) ac mae risg y bydd hynny'n digwydd o fewn 21 diwrnod i osod yr offeryn statudol hwn. Y rhesymeg yw rhoi eglurder o ran y gyfraith gan y byddai darpariaethau yn y Bil yn disodli *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021* (y Rheoliadau presennol) a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol wedi'u hamgáu er gwybodaeth i chi.

Os daw i rym, bydd yr offeryn statudol hwn yn dirymu'r Rheoliadau presennol a roddwyd ar waith i ddiogelu cyllid cyhoeddus tra bo'r Bil yn mynd drwy Senedd y DU. Os caiff y Bil ei basio, bydd darpariaethau yn y Bil yn disodli'r Rheoliadau presennol ac, er mwyn eglurder, mae angen dirymu'r Rheoliadau presennol. Bydd y Rheoliadau presennol yn parhau i fod ar waith tra bydd y Bil yn mynd yn rhagddo ac os na fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

Cafodd gwelliannau i'r Bil, yn ymwneud â Chymru, eu gosod ar 9 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 21 Medi. Cafodd hwnnw ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a gyflwynodd adroddiad ar 17 Tachwedd a 18 Tachwedd yn y drefn honno. Cynhaliais ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 23 Tachwedd, a chytunodd y Senedd y dylai darpariaethau sy'n gymwys i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

# SL(6)093 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Rhif 12) 2021 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i ychwanegu Botswana, Eswatini, Lesotho, Namibia, De Affrica a Zimbabwe at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Bydd hyn yn golygu na fydd teithwyr o'r cyrchfannau hynny yn cael dod i mewn i Gymru ond rhaid iddynt fynd i mewn drwy borthladd mynediad yn Lloegr neu'r Alban a mynd i gyfleuster cwarantîn a reolir, a rhaid iddynt gymryd profion PCR ar ôl cyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> "*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*"

Nodwn hefyd yr esboniad a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU."*

Hefyd:

> *"Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr wedi'i nodi yn Ne Affrica, ar ôl i'r DU nodi'r amrywiolyn a gyflwynwyd gan Hong Kong (a oedd yn deillio o Dde Affrica) ar GISAID a hysbysu partneriaid rhyngwladol. Cynhaliodd De Affrica gynhadledd i'r wasg ddoe ac amlygu twf esbonyddol; mae achosion wedi cynyddu bedair gwaith drosodd yn y pythefnos diwethaf."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 12.00 p.m. ar 26 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 26 Tachwedd.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- **Ychwanegu Botswana, De Affrica, Eswatini, Lesotho, Namibia a Zimbabwe at y "Rhestr Goch" o wledydd.**

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)094 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Rhif 13) 2021 (“y Rheoliadau”) yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”). Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a’r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Mae’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy’n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy’n gymwys i bersonau sy’n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy’n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i ychwanegu Mozambique a Malawi at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Bydd hyn yn golygu na fyddai teithwyr o'r cyrchfannau hynny'n cael caniatâd i ddod i mewn i Gymru ond rhaid iddynt ddod i mewn drwy borth mynediad yn Lloegr neu'r Alban a mynd i gyfleuster cwarantin a reolir, a rhaid iddynt gymryd profion PCR ar ôl cyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8.

Nodwn, fodd bynnag, er bod y Rheoliadau i fod i ddod i rym am 8.00pm ar 26 Tachwedd 2021, fod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021 wedi dirymu'r Rheoliadau am 19:59 ar 26 Tachwedd 2021.  Wedi hynny, ychwanegodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021 Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol am 04:00 ar 28 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> "*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*"

Nodwn hefyd yr esboniad a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU."*

Hefyd:

> *"Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr wedi'i nodi yn Ne Affrica, ar ôl i'r DU nodi'r amrywiolyn a gyflwynwyd gan Hong Kong (a oedd yn deillio o Dde Affrica) ar GISAID a hysbysu partneriaid rhyngwladol. Cynhaliodd De Affrica gynhadledd i'r wasg ddoe ac amlygu twf esbonyddol; mae achosion wedi cynyddu bedair gwaith drosodd yn y pythefnos diwethaf."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r*

*Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 20:00 oriau ar 26 Tachwedd 2021. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 26 Tachwedd.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- **Ychwanegu Malawi a Mozambique at y "Rhestr Goch" o wledydd.**

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.6

# SL(6)095 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Rhif 14) 2021 ("y Rheoliadau") yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 ("Rheoliadau Rhif 13").

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Yn wreiddiol, diwygiodd Rheoliadau Rhif 13 Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") i ychwanegu Mozambique a Malawi at y rhestr o wledydd neu diriogaethau yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Nodwn, fodd bynnag, er bod Rheoliadau Rhif 13 i fod i ddod i rym am 8.00 pm ar 26 Tachwedd 2021, bod y Rheoliadau wedi'u dirymu am 19:59 ar 26 Tachwedd 2021. Wedi hynny, ychwanegodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021 Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol am 04:00 ar 28 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Yn dilyn fy llythyr yn gynharach heddiw ynghylch Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021, ac yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 19:59 oriau ar 26 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 29 Tachwedd.*"

Nodwn ymhellach yr esboniad canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr, a elwir yn Omicron, wedi'i nodi mewn sawl gwlad. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder, oherwydd y nifer mawr o fwtaniadau y mae rhai ohonynt yn destun pryder.*
>
> O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y 'rhestr goch' o wledydd ond yn sgil yr angen i gael cytundeb cyfunol ar draws y DU, bu oedi o ran gosod Rheoliadau'r DU. I sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, di-rymwyd y Rheoliadau.
>
> *Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, roedd modd i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau blaenorol cyn iddynt ddod i rym, gan barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol.*
>
> *Yn dilyn datblygiadau pellach y noswaith honno a thrafod pellach ar draws y DU, ychwanegwyd Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y rhestr goch o wledydd ar 27 Tachwedd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021**

Yn dilyn fy llythyr yn gynharach heddiw ynghylch Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021, ac yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 19:59 oriau ar 26 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 29 Tachwedd.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn dirymu'r Rheoliadau cynharach cyn iddynt ddod i rym er mwyn parhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.7

# SL(6)096 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Rhif 15) 2021 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Bydd hyn yn golygu na fyddai teithwyr o'r cyrchfannau hynny'n cael caniatâd i ddod i mewn i Gymru ond rhaid iddynt ddod i mewn drwy borth mynediad yn Lloegr neu'r Alban a mynd i gyfleuster cwarantin a reolir, a rhaid iddynt gymryd profion PCR ar ôl cyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 27 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

Nodwn ymhellach yr esboniad canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr, a elwir yn Omicron, wedi'i nodi mewn sawl gwlad. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder, oherwydd y nifer mawr o fwtaniadau y mae rhai ohonynt yn destun pryder.*
>
> *O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, bydd Llywodraeth y DU yn ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y 'rhestr goch' o wledydd.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

27 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ar 28 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 29 Tachwedd.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, fel bod:

- **Angola, Mozambique, Malawi a Zambia wedi eu hychwanegu at y 'Rhestr Goch' o wledydd.**

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol a bod modd ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)100 - The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 16) Regulations 2021

## Background and Purpose

The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 ("the International Travel Regulations") impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include requirements for booking and undertaking coronavirus tests in accordance with those Regulations.

These Regulations amend the International Travel Regulations by correcting an error introduced to those regulations by the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No.3) Regulations 2021 ("the No. 3 Regulations"), which were laid on 30 November 2021.

Regulation 8 of the No.3 Regulations inserted a new regulation 6HB(3) into the International Travel Regulations relating to isolation requirements on receipt of inconclusive test results. In the English text this referred to isolation for 10 days, whereas the Welsh text incorrectly referred to isolation for 14 days.

These Regulations correct the error in the Welsh text of regulation 6HB(3) in the International Travel Regulations, clarifying that the isolation period is 10 days.

## Procedure

Negative

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd can annul the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument:

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

We note the breach of the 21-day rule (i.e. the rule that 21 days should pass between the date a "made negative" instrument is laid before the Senedd and the date the instrument comes into force), and the explanation for the breach provided by Eluned Morgan MS, Minister for Health and Social Services in a letter to the Llywydd dated 1 December 2021.

In particular, we note the following:

> *"This statutory instrument amends the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020, to correct an error in an amendment to those Regulations made earlier this week by the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No.3) Regulations 2021. The Regulations made today will ensure that the Welsh and English text of regulation 6HB(3) are consistent. Not adhering to the 21 day convention allows this correction to come into force at the earliest opportunity and ensure travellers are able to follow a clear set of rules. It will also ensure ongoing consistency with the four nation approach to international travel. In view of the changing evidence on risk in relation to this disease this is considered necessary and justifiable in this case"*

**2. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

The Explanatory Memorandum to these Regulations confirms that no members of the public have been affected by the error. We note the following paragraphs of the Explanatory Memorandum:

> "*Although very regrettable, in practice we confirm that no one in Wales or the UK will currently be affected by this error prior to its remedy. This is because when the amendment was corrected it was only the second day of the new arrangements, and as such "day 2 tests" were only just being taken. The consequences of any inconclusive test results and the disparity between the texts of the isolation periods of 10 days or 14 days would not have any impact until next week.*
>
> *However this error needs to corrected and action taken urgently as an inconclusive result could be returned yesterday or today and people need to plan accordingly.*"

## Welsh Government response

A Welsh Government response is not required.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**2 December 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 2 Rhagfyr.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i gywiro camgymeriad mewn diwygiad i'r Rheoliadau hynny a wnaed yn gynharach yr wythnos hon gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021. Bydd y Rheoliadau a wneir heddiw yn sicrhau bod testun Cymraeg a Saesneg rheoliad 6HB(3) yn gyson â'i gilydd.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r cywiriad hwn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd ac i deithwyr allu dilyn set glir o reolau. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cysondeb yn parhau o ran y dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)097 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion ar gyfer archebu a chymryd profion coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer pob teithiwr sydd wedi'i frechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch'.

- Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n cyrraedd o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch' hunan-ynysu rhag cyrraedd nes eu bod yn cael canlyniad negyddol o'u prawf PCR diwrnod 2.

Effaith y newidiadau hyn yw bod angen i deithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n dod o wledydd nad ydynt ar y 'rhestr goch' hunan-ynysu nes eu bod wedi cymryd prawf PCR diwrnod 2 a chael canlyniad negyddol. Os cânt ganlyniad positif, bydd angen iddynt barhau i hunan-ynysu am gyfnod o 10 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod y cymerwyd y prawf PCR.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 6HB(3) yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Mae'r fersiwn Saesneg o reoliad newydd 6HB(3) yn cyfeirio at ynysu am 10 diwrnod, ond mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at ynysu am 14 diwrnod.

Felly, nid yw'n eglur am ba hyd y mae'n rhaid i berson ynysu o dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 6HB. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru unioni ac egluro'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Tachwedd 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol:

> "*Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws,Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:*
>
> > • *Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn.*
> >
> > • *Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn hunan-ynysu o'r adeg y maent yn cyrraedd nes iddynt gael canlyniad negyddol i'w prawf diwrnod 2.*
>
> *Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Rhagfyr 2021**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 30 Tachwedd.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- **Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn.**

- **Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn hunan-ynysu o'r adeg y maent yn cyrraedd nes iddynt gael canlyniad negyddol i'w prawf diwrnod 2.**

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)088 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheolau 2021 yn pennu'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned neu gynghorau tref yng Nghymru. Mae Rheolau 2021 yn benodol i Gymru a'u nod yw darparu set wedi'i diweddaru a'i moderneiddio o reolau ymddygiad. Er enghraifft, mae Rheolau 2021 yn nodi'r rheolau ynghylch:

- yr amserlen ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n digwydd cyn ac ar y diwrnod pleidleisio,
- rhoi hysbysiad o etholiad,
- enwebu ymgeiswyr,
- ffurf papurau pleidleisio,
- swyddogaethau swyddogion canlyniadau a swyddogion llywyddu,
- penodi (gan ymgeiswyr) asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif,
- cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau.

Mae Rheolau 2021 hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu polisïau a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ymgynghorwyd ar y newidiadau polisi hyn fel rhan o'r ymgynghoriad Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2017. Mae'r polisïau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn Rheolau 2021 yn ymwneud â chyhoeddi'n ddewisol gyfeiriad cartref yr ymgeisydd, y datganiad o aelodaeth plaid a'r newidiadau angenrheidiol yn dilyn ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys.

Bydd Rheolau 2021 yn gymwys i ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned neu gynghorau tref yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheolau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheolau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheolau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheolau 2021, ymhlith pethau eraill, yn cydgrynhoi'r gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau cynghorau cymuned a'r rheolau ar gyfer eu cynnal.

Rydym yn croesawu'r gwaith i gydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith, a oedd yn arfer dod o dan Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 (**Rheolau 2006**). Gwnaed Rheolau 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail Cymru a Lloegr, yn Saesneg yn unig, ac roeddent yn cynnwys cyfuniad cymhleth o ddarpariaethau, â rhai ohonynt yn gymwys yng Nghymru a rhai nad oeddent yn gymwys yng Nghymru.

Mae Rheolau 2021 bellach yn nodi'r rheolau perthnasol sy'n gymwys yng Nghymru mewn ffordd glir, mewn un lle ac yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd i'r maes hwn o'r gyfraith yn sylweddol, sydd i'w groesawu.

Mae Memorandwm Esboniadol Rheolau 2021 i'w groesawu hefyd, sy'n cynnwys esboniad clir a thrylwyr o Reolau 2021. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd Rheolau 2021 (dros 170 o dudalennau).

Fodd bynnag, nodwn fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud is-ddeddfwriaeth bellach yn y maes hwn o'r gyfraith, gan wneud darpariaeth atodol a chanlyniadol. Gobeithiwn na fydd hyn yn arwain at gam diangen yn ôl o safbwynt y gwaith hygyrchedd a chydgrynhoi y mae Rheolau 2021 yn ei gyflawni.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

# SL(6)089 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheolau 2021 yn pennu'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol cynghorwyr i gynghorau sirol a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae Rheolau 2021 yn benodol i Gymru a'u nod yw darparu set wedi'i diweddaru a'i moderneiddio o reolau ymddygiad. Er enghraifft, mae Rheolau 2021 yn nodi'r rheolau ynghylch:

- yr amserlen ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n digwydd cyn ac ar y diwrnod pleidleisio,
- rhoi hysbysiad o etholiad,
- enwebu ymgeiswyr,
- ffurf papurau pleidleisio,
- swyddogaethau swyddogion canlyniadau a swyddogion llywyddu,
- penodi (gan ymgeiswyr) asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif,
- cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau.

Mae Rheolau 2021 hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu polisïau a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ymgynghorwyd ar y newidiadau polisi hyn fel rhan o'r ymgynghoriad Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2017. Mae'r polisïau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn Rheolau 2021 yn ymwneud â chyhoeddi'n ddewisol gyfeiriad cartref yr ymgeisydd, y datganiad o aelodaeth plaid a'r newidiadau angenrheidiol yn dilyn ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys.

Bydd Rheolau 2021 yn gymwys i ethol cynghorwyr i gynghorau sirol a chynghorau bwredeistref sirol yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheolau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheolau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheolau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheolau 2021, ymhlith pethau eraill, yn cydgrynhoi'r gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau prif gynghorau a'r rheolau ar gyfer eu cynnal.

Rydym yn croesawu'r gwaith i gydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith, a oedd yn arfer dod o dan Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 (**Rheolau 2006**). Gwnaed Rheolau 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail Cymru a Lloegr, yn Saesneg yn unig, ac roeddent yn cynnwys cyfuniad cymhleth o ddarpariaethau, â rhai ohonynt yn gymwys yng Nghymru a rhai nad oeddent yn gymwys yng Nghymru.

Mae Rheolau 2021 bellach yn nodi'r rheolau perthnasol sy'n gymwys yng Nghymru mewn ffordd glir, mewn un lle ac yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd i'r maes hwn o'r gyfraith yn sylweddol, sydd i'w groesawu.

Mae Memorandwm Esboniadol Rheolau 2021 i'w groesawu hefyd, sy'n cynnwys esboniad clir a thrylwyr o Reolau 2021. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd Rheolau 2021 (dros 170 o dudalennau).

Fodd bynnag, nodwn fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud is-ddeddfwriaeth bellach yn y maes hwn o'r gyfraith, gan wneud darpariaeth atodol a chanlyniadol. Gobeithiwn na fydd hyn yn arwain at gam diangen yn ôl o safbwynt y gwaith hygyrchedd a chydgrynhoi y mae Rheolau 2021 yn ei gyflawni.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**

# Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir

# 06 Rhagfyr 2021

## SL(6)090 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

### Cefndir a diben

Cynigir y dylid cyhoeddi Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (y "Cod") yn unol ag adran 8 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"). Mae'r Cod yn nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb. ("ACRh").

Mae cynnwys y Cod yn seiliedig ar linynnau dysgu cysylltiedig bras, sef:

- Cydberthnasau a hunaniaeth;
- Iechyd rhywiol a lles;
- Grymuso, diogelwch a pharch.

O dan adran 8(2) a (3) o'r Ddeddf, nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol ACRh oni bai ei fod yn cyd-fynd â r ddarpariaeth yn y Cod. At hynny, nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol ACRh oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod.

Mae rhoi'r Cod ar waith mewn ysgolion a lleoliadau yn broses sydd wedi'i chynllunio i ddigwydd rhwng mis Medi 2022 hyd at flwyddyn academaidd 2026/27 wrth i Gwricwlwm Cymru gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau. Ategir y Cod gan ganllawiau statudol a ddyroddir o dan adran 71 o'r Ddeddf.

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Cod drafft.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Eitem 5.1

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29 Tachwedd 2021

Annwyl Aelodau,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y fersiwn ddrafft o God Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau statudol ategol.

O dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Bydd hwn yn nodi'r elfennau dysgu gorfodol o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y bydd yn rhaid i bob ysgol a lleoliad eu cynnwys yn eu cwricwlwm i bob dysgwr. Caiff yr elfennau dysgu hyn eu cyflwyno pan fydd yn briodol i ddatblygiad y dysgwyr. Rwy'n falch o gael dweud bod hwn wedi'i osod gerbron y Senedd ar 23 Tachwedd. Mae'r cod a'r canllawiau wedi'u cyd-ddatblygu gydag athrawon ac ystod o randdeiliaid.

Nod y cod yw helpu dysgwyr i greu a chynnal ystod o gydberthnasau, pob un yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Mae'r cydberthnasau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau lles emosiynol, cadernid ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb, â phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i'w deall eu hunain, ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau a'u hymddygiad eu hunain, a chreu cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch. Mae newidiadau cymdeithasol a thechnolegol yn tanlinellu mor bwysig yw'r addysg hon i blant a phobl ifanc.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol, holistaidd o ansawdd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o elfennau cadarnhaol sy'n diogelu dysgwyr a'u cymunedau, a gall, er enghraifft:

- helpu i gynyddu dealltwriaeth dysgwyr o gydberthynas iach, ddiogel sy'n dod â boddhad a'u helpu i gael cydberthnasau o'r fath
- helpu pobl ifanc i adnabod cydberthynas o gam-drin neu nad yw'n iach a sut i chwilio am gymorth
- helpu i leihau pob bwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, a sicrhau lefel uwch o ddiogelwch a lles i bob dysgwr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- helpu pob dysgwr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfathrach rywiol ac iechyd atgenhedlol
- helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch o ran y rhywiau, rhywedd a rhywioldeb
- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais rhywiol ac ar sail rhywedd, a gwybodaeth amdano.

Mae’n hanfodol, wrth gwrs, fod ysgolion, lleoliadau ac ymarferwyr yn cael cefnogaeth lawn i ddarparu’r elfen hollbwysig hon o’r cwricwlwm. Bydd fframwaith Cwricwlwm i Gymru, ochr yn ochr â’r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ategol, felly. Mae hyn yn cydnabod bod *sut* y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chyflwyno cyn bwysiced â *beth* sy’n cael ei addysgu. Rwy’n amgáu copi o’r canllawiau statudol drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er gwybodaeth. Caiff y canllawiau hyn eu cyhoeddi pan gymeradwyir y Cod.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**[DS: oni nodir ar wahân, mae'r adran hon o'r canllawiau yn disodli'r adran ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb a gyhoeddwyd eisoes o dan themâu trawsbynciol yn adran Cynllunio eich Cwricwlwm Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru – gweler:** Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.cymru)**]**

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – Canllawiau Statudol

(Mae geiriau mewn gwyrdd yn dynodi bod diffiniad yn yr Eirfa isod)

### Statws cyfreithiol y canllawiau hyn

Mae'r adran hon yn nodi canllawiau statudol mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf), a bwriedir iddi helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio addysg cydberthynas a rhywioldeb fel rhan o'r cwricwlwm.

### Cyflwyniad

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae wrth greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau diogel, iach a boddhaus drwy gydol eu bywydau. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn creu cymdeithas sy'n trin pobl eraill â dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd; cefndir economaidd-gymdeithasol; anabledd; a rhyw, rhywedd neu rywioldeb.

Mae'r rhan hon o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: mae'r cod hwn yn nodi'r elfennau dysgu gorfodol ar gyfnodau priodol o safbwynt datblygiad
- y canllawiau statudol ategol: mae'r canllawiau hyn yn helpu i ddatblygu addysg cydberthynas a rhywioldeb o fewn cwricwlwm fel elfen hanfodol ynddi ei hun a hefyd fel elfen drawsbynciol ym mhob Maes.

DRAFT

Mae'r adran isod yn egluro beth sy'n rhan o'r cod gorfodol a beth sy'n rhan o'r canllawiau statudol. Ceir dolen i ddyletswyddau cyfreithiol ysgolion a lleoliadau mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb yn adran crynodeb deddfwriaethol y canllawiau fframwaith hyn.

**Pam mae addysg cydberthynas a rhywioldeb mor bwysig?**

Mae'r byd o'n cwmpas yn datblygu'n gyflym ac yn sylweddol. Fel cymdeithas, rydym yn dod yn fwyfwy ymwybodol o:

- newidiadau mewn strwythurau a chydberthnasau teuluol
- newidiadau mewn normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb
- datblygiadau technolegol gan gynnwys dylanwad cynyddol y cyfryngau cymdeithasol a chynnydd yn y defnydd o ddulliau a dyfeisiau cyfathrebu digidol
- newidiadau i gyfreithiau a hawliau sy'n ymwneud â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb.

Yn y cyd-destun hwn, mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cynnig cefnogaeth bwysig er mwyn galluogi dysgwyr i ddelio â'r newidiadau hyn. Mae deall sut mae ffurfio, datblygu a chynnal cydberthnasau yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac agweddau a fydd o gymorth iddynt yn eu cydberthnasau eu hunain drwy gydol eu bywydau. Gall y rhain gynnwys cydberthnasau teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a chydberthnasau rhamantus a rhywiol. Mae dysgu am gydberthnasau a rhywioldeb yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau a delio'n effeithiol â dylanwadau sy'n newid yn gyflym. Mae angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i ymateb i'r rhain a, lle bo hynny'n briodol, deimlo y gallant herio stereoteipiau a chanfyddiadau niweidiol a gofyn am help a chymorth.

Gall addysg cydberthynas a rhywioldeb drawsnewid bywydau dysgwyr a chymunedau – mae'n bwysig o safbwynt grymuso dysgwyr a datblygu eu sgiliau meddwl yn feirniadol. Mae plant a phobl ifanc yn delio ag ystod o negeseuon cymhleth ac anghyson am gydberthnasau a rhywioldeb a fydd yn llywio eu hymdeimlad ohonynt eu hunain a'u cydberthnasau â phobl eraill. Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb o ansawdd yn helpu dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â'r hyn y maent yn ei ddysgu a'i brofi. Mae hyn yn eu helpu i ddeall eu gwerthoedd a'u credoau ac eirioli dros barchu a deall pobl eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael addysg gynhwysol a chyfannol o ansawdd uchel am gydberthnasau a rhywioldeb. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n gynhwysol, yn gyfannol ac o ansawdd uchel yn gysylltiedig ag ystod o ddeilliannau cadarnhaol ac amddiffynnol i bob dysgwr a'i gymuned a gall, er enghraifft:

- helpu i gynyddu dealltwriaeth dysgwyr o gydberthnasau iach, diogel a boddhaus a'u rhan mewn cydberthnasau o'r fath

- helpu pobl ifanc i adnabod cydberthnasau camdriniol neu gydberthnasau gwael a gofyn am gymorth
- helpu i leihau pob bwlio yn cynnwys bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig, a chynyddu diogelwch a lles pob dysgwr
- helpu pob dysgwr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfathrach rywiol ac iechyd atgenhedlol
- helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch o ran rhyw, rhywedd a rhywioldeb
- cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

**Beth yw addysg cydberthynas a rhywioldeb?**

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau, y tueddfrydau a'r gwerthoedd a fydd yn grymuso dysgwyr i wneud y canlynol:

- cefnogi eu hiechyd a'u lles
- datblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus o bob math, gan gynnwys cydberthnasau â theulu a ffrindiau ac, ymhen amser, cydberthnasau rhamantus a rhywiol
- deall a gwneud synnwyr o'r ffordd y mae cydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu hunaniaeth a'u bywydau eu hunain a rhai pobl eraill
- deall a chefnogi eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill i fwynhau cydberthnasau teg, diogel, iach a boddhaus drwy gydol eu bywydau ac eirioli dros yr hawliau hynny.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gadarnhaol o gydberthnasau a rhywioldeb ac yn adnabod camsyniadau. Nod addysg cydberthynas a rhywioldeb yw grymuso dysgwyr yn unol â'u hanghenion, eu profiadau a'u datblygiad ehangach. Drwy drafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr, gall ddarparu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n galluogi dysgwyr i fyfyrio ar eu safbwyntiau a'u teimladau ynghylch ystod o faterion, a mynegi'r safbwyntiau a'r teimladau hynny.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm yn canolbwyntio ar dri llinyn cyffredinol:

- Cydberthnasau a hunaniaeth: helpu dysgwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn datblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus â phobl eraill a'u helpu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau

- Iechyd rhywiol a lles: helpu dysgwyr i droi at ffynonellau ffeithiol ynghylch eu hiechyd a'u lles rhywiol ac atgenhedlol gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus drwy gydol eu bywydau

- Grymuso, diogelwch a pharch: helpu i'w hamddiffyn rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol, gan eu helpu i wybod pryd, sut a ble i ofyn am gymorth a chyngor.

DRAFT

**Yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu sy'n rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb effeithiol**

Er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellir uchod, mae'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu canlynol yn cynnig arweiniad a chymorth i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt gynllunio a darparu addysg cydberthynas a rhywioldeb fel rhan o'u cwricwlwm:

- Dull gweithredu ysgol gyfan:

  Dylai'r hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir o fewn addysg cydberthynas a rhywioldeb gael eu cefnogi gan ddull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac mae hyn yn hollbwysig er mwyn cefnogi lles dysgwyr.
  Mae hyn yn golygu cysylltu pob agwedd ar yr ysgol yn effeithiol, gan gynnwys y cwricwlwm, polisïau, staff, amgylchedd yr ysgol a'r gymuned, er mwyn cefnogi dysgwyr yn eu haddysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai hyn helpu i ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol, sy'n galluogi dysgwyr ac ymarferwyr i ffynnu; atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson a darparu cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ymarferwyr a dysgwyr.

  Fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan, dylid ystyried arweinyddiaeth a pholisïau'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai uwch-dîm arwain yr ysgol helpu i ddatblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb a dylid penodi arweinydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn yr ysgol hefyd. Dylid hefyd ystyried sut mae'r cwricwlwm a'r addysgeg yn cefnogi ac yn llywio datblygiad y dull gweithredu ehangach. Mae dysgu proffesiynol yn hollbwysig hefyd. Dylai'r uwch-dîm arwain sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â dysgu proffesiynol. Dylai ysgolion hefyd ystyried sut y gall y diwylliant a'r amgylchedd gefnogi addysg cydberthynas a rhywioldeb.

- Galluogi hawliau dynol:

  Dylai ysgolion a lleoliadau drafod addysg cydberthynas a rhywioldeb yng nghyd-destun hawliau plant a ddiogelir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dylai dull gweithredu seiliedig ar hawliau a gefnogir gan degwch fod wrth wraidd y dysgu.

  Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi arweiniad i ysgolion, sef Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru. Dylai hyn lywio'r ffordd y mae lleoliadau yn gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn y cwricwlwm, gan gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hawliau yn rhoi ffordd i ddysgwyr ystyried materion sy'n rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb, gan eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol ar gyfer cydberthnasau iach; parchu a deall pobl eraill ac adnabod ymddygiadau iach a niweidiol

DRAFT

Fel hyn, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau'n ymwneud â phob agwedd ar addysg cydberthynas a rhywioldeb ac yn cyfrannu at ryddid, urddas, lles a diogelwch pawb. Mae hyn hefyd yn helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd tegwch, gan gydnabod pwysigrwydd hawliau wrth sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg

Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried hawliau plant yn benodol. Dylai'r hyn a ddysgir mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb bwysleisio'r hawl i'r canlynol:

- byw heb gamwahaniaethu (Erthygl 2)
- cael gwrandawiad a chyfrannu at benderfyniadau (Erthygl 12)
- rhyddid mynegiant (Erthygl 13)
- dilyn eich crefydd eich hun (Erthygl 14)
- preifatrwydd (Erthygl 16)
- cael gafael ar wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus (Erthygl 17)
- peidio â chael eich niweidio a chael gofal a chael eich cadw'n ddiogel (Erthygl 19)
- mwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd, cael cyfleusterau iechyd, a gofal iechyd ataliol (Erthygl 24)
- addysg sy'n paratoi plant i ddeall pobl eraill (Erthygl 29)
- cael eich amddiffyn rhag achosion o gam-fanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol (Erthygl 34)
- cael help arbennig os ydych wedi cael eich cam-drin (Erthygl 39).

Mae Erthygl 3 – dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn – yn berthnasol i addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn ogystal â'r cwricwlwm cyfan.

Gall ysgolion a lleoliadau hefyd gysylltu'r hyn a ddysgir â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dylai dysgwyr gael eu cefnogi hefyd i feithrin dealltwriaeth o'r dyletswyddau a'r mesurau amddiffyn cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, trais ar sail rhywedd a thrais domestig, a lles. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfreithiau perthnasol yn y crynodeb deddfwriaethol yn y canllawiau hyn

- Cynhwysiant, gan gynnwys cynhwysiant LHDTC+

Yn unol â gofynion y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, caiff addysg cydberthynas a rhywioldeb ei darparu mewn ffordd gynhwysol yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall y dysgwyr i gyd weld eu hunain, eu teuluoedd, eu cymunedau a'i gilydd yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r cwricwlwm a dysgu sut i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder. Mae hyn yn cyfrannu at gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn sy'n datblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen ar ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys, wrth gwrs, tegwch o ran rhywedd a chynhwysiant LHDTC+.

DRAFT

Mae dysgwyr yn tyfu i fyny mewn byd lle mae rhywedd a hunaniaeth rhywiol, diwylliannau, hawliau a deddfwriaeth yn newid neu'n datblygu ym mhobman. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysol ddechrau'n gynnar. O oedran ifanc, gall dysgwyr ddysgu am yr hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, sut i werthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau pobl eraill. Dyma'r sylfaen ar gyfer ystyried amrywiaeth mewn cydberthnasau, rhywedd a hunaniaeth rywiol a datblygu'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i feddwl yn feirniadol am rywedd a normau, hawliau ac annhegwch rhywiol. Dylai hyn gynnwys ystyried ystod o ddylanwadau sy'n llywio ein gwerthoedd a'n hunaniaeth. Dylai helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol werthoedd, credoau crefyddol a daliadau anghrefyddol a all lywio ein gwerthoedd a'n hunaniaeth o ran cydberthnasau a rhywioldeb.

- Addysg cydberthynas a rhywioldeb fel elfen drawsbynciol

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn faes rhyngddisgyblaethol eang a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol.

Mae hyn yn golygu bod gan bob Maes o'r cwricwlwm a'r ystod o ddisgyblaethau pwnc o fewn pob Maes gyfraniad unigryw i'w wneud at yr hyn a ddysgir fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai addysg cydberthynas a rhywioldeb gyffwrdd â phob Maes er mwyn galluogi dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng yr hyn a ddysgir ganddynt mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r cwricwlwm ehangach, gan ddeall safbwyntiau a dylanwadau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol, ffisegol, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol ar faterion yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn hefyd yn helpu i osgoi dull sy'n canolbwyntio ar 'un mater' lle mae pob gwers yn edrych ar fater gwahanol sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, ar wahân i'r pethau eraill sy'n cael eu dysgu. Dylai ysgolion ystyried yr hyn y gall pob Maes ei gyfrannu'n ddilys at ddealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylid gwneud hyn mewn ffordd ystyrlon a dylid ceisio osgoi cysylltiadau arwynebol neu ddisylwedd.

Mae'r adran Cynllunio Eich Cwricwlwm ar gyfer pob Maes yn cynnwys cymorth ar sut y gall pob Maes gyfrannu'n ddilys at addysg cydberthynas a rhywioldeb (gweler isod).

- Dysgu sy'n briodol o safbwynt datblygiad

Dylai popeth a ddysgir mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn briodol o safbwynt datblygiad ac ystyried y canlynol:

Ymateb i anghenion a phrofiadau dysgwyr, yn ogystal â'u gwybodaeth sy'n cael ei meithrin:

Dylai ysgolion gynnwys safbwyntiau'r dysgwyr er mwyn sicrhau bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn berthnasol ac yn ymatebol a chynnig cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr er mwyn helpu i gyfeirio'u dysgu wrth iddynt wneud cynnydd. Dylai barn dysgwyr ar beth, sut a ble maent yn dysgu gael ei

DRAFT

hystyried fel y gall y cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas yn gywir.

Priodoldeb datblygiadol bras yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amlinellu pob llinyn addysgu a dysgu ar ffurf tri chyfnod datblygu bras fel a ganlyn:

- Cyfnod 1 – o 3 oed
- Cyfnod 2 – o 7 oed
- Cyfnod 3 – o 11 oed

Mae pob cyfnod yn cynrychioli conglfeini cynnydd o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylent adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt eisoes yng nghyfnod un; neu yng nghyfnodau un a dau; gan gyfuno ac atgyfnerthu'r un tueddfrydau, gwybodaeth a sgiliau a'u defnyddio mewn cyd-destunau newydd a pherthnasol wrth iddynt ddatblygu. Mae hyn yn wahanol iawn i ddysgu am bynciau ar wahân ac yna symud ymlaen at gynnwys arall.

Dylai ysgolion ystyried llinynnau gorfodol cynnwys sy'n briodol o safbwynt datblygiad yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn datblygu eu dull gweithredu, a dylent gydnabod datblygiad ac anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol dysgwyr yn ystod eu gwaith cynllunio.

Yn ystod y cyfnod datblygu cynnar, gall pwyslais effeithiol ar sgiliau angenrheidiol alluogi'r dysgwr i ymateb yn llwyddiannus i sefyllfaoedd mewn ffordd ystyrlon, gan gefnogi cynnydd pob dysgwr. Dyma sut y caiff y rhan fwyaf o bynciau addysg cydberthynas a rhywioldeb eu hystyried yn y cyfnod cynnar.

Deall natur cynnydd o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb:

Mae'r egwyddorion cynnydd ar gyfer y Maes Iechyd a Lles yn cynnig arweiniad ar gynnydd o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai'r hyn a ddysgir ailymweld â chynnwys, themâu a phynciau fel yr amlinellir yn unrhyw rai o'r cyfnodau blaenorol a nodir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb isod, gan atgyfnerthu dealltwriaeth ddatblygol ac anghenion newidiol dysgwyr ac adeiladu arnynt. Wrth iddynt ddatblygu, dylid annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Addysg cydberthynas a rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol:

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr nad yw ei ddealltwriaeth o faterion iechyd rhywiol a lles o bosibl yn cyfateb i'w ddatblygiad.

DRAFT

Dylai pob aelod o staff, gan gynnwys staff ategol, ffisiotherapyddion, nyrsys a gofalwyr, fod yn ymwybodol o ddull gweithredu'r ysgol mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn rhan gynlluniedig ac integredig o'r cwricwlwm, wedi ei chydlynu'n effeithiol i sicrhau parhad a chynnydd mewn dysgu ar draws y continwwm. Dylai ysgolion arbennig benderfynu ar union gynnwys y rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb a fydd, mewn llawer o achosion, yn golygu rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhagofynion ar gyfer dysgu ystyrlon mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r strategaethau ar gyfer dysgu a fabwysiedir i ddiwallu anghenion gwahanol y dysgwyr. Er enghraifft, ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio dulliau amgen o gyfathrebu, fel arwyddo, symbolau neu switshis a chymhorthion cyfathrebu, bydd angen i ysgolion sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â thermau addysg cydberthynas a rhywioldeb allweddol mewn Makaton, Braille ac Iaith Arwyddion Prydain, neu ym mha bynnag ddull cyfathrebu amgen a ddefnyddir.

- Ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a chymunedau ehangach

Dylai ysgolion a lleoliadau feddu ar linellau cyfathrebu clir mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb a dylent ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach, gan roi cyfle iddynt ymgysylltu â'r hyn a ddysgir a'r hyn a addysgir fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr yn barhaus yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol er mwyn ymgysylltu â nhw mewn ffordd bwrpasol ac ystyrlon. Os caiff hyn ei wneud yn dda, gall hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut y gallan nhw gefnogi dysgu yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Dylai cwricwla ysgolion hefyd gydnabod ac adlewyrchu anghenion a chyd-destunau'r cymunedau yn yr ysgol a thu hwnt. .

Dylai gweithio mewn ffordd ragweithiol helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ofidiau sydd gan rieni a gofalwyr o bosibl mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai hyn hefyd helpu i roi sicrwydd iddynt ynghylch natur gadarnhaol addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy nodi'r hyn y bwriedir ei ddysgu a'r adnoddau a ddefnyddir yn ystod y cyfnodau datblygu gwahanol.

Dylai ysgolion a lleoliadau wybod pryd a ble y mae angen iddynt ddefnyddio cymorth gan sefydliadau ac arbenigwyr allanol, fel nyrsys ysgol. Dylai staff o'r ysgol fod yn bresennol bob amser pan fo sefydliadau allanol yn gweithio gyda dysgwyr. Dylai fod ganddynt hefyd wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r rhwydwaith o wasanaethau cymorth lleol er mwyn gallu cael cymorth ac atgyfeirio pan fo angen.

Dylid sicrhau bod yr holl adnoddau a ddefnyddir mewn ysgolion a lleoliadau yn berthnasol, yn ddilys, eu bod yn briodol o safbwynt datblygiad, eu bod yn gynhwysol ac yn sensitif i anghenion dysgwyr. Dylai ysgolion rannu

enghreifftiau o'r adnoddau y maent yn bwriadu eu defnyddio â rhieni er mwyn rhoi sicrwydd iddynt a'u galluogi i atgyfnerthu sgyrsiau a pharhau â nhw yn y cartref, lle bo hynny'n briodol.

- Dysgu proffesiynol

Mae dysgu proffesiynol yn ofyniad allweddol er mwyn sicrhau addysg cydberthynas a rhywioldeb o ansawdd, a dylai ddigwydd ar lefel ysgol, lefel clwstwr, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol.

Dylai uwch-arweinwyr mewn ysgolion sicrhau bod pob ymarferydd yn cyfrannu at flaenoriaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb yr ysgol, naill ai drwy'r dull gweithredu ysgol gyfan, yr elfen drawsbynciol neu'r dysgu hanfodol. Dylai ysgolion a lleoliadau alluogi pob ymarferydd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a all ei helpu i fagu hyder a meithrin gwybodaeth a sgiliau ym maes addysg cydberthynas a rhywioldeb.

- Addysg cydberthynas a rhywioldeb gadarnhaol, amddiffynnol ac ataliol

Gan adeiladu ar y Cod, dylai'r dull gweithredu ym maes addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- deall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau
- adnabod ymddygiadau a allai fod yn niweidiol mewn cydberthnasau a gwybod sut i ofyn am gymorth
- meddu ar yr wybodaeth i adnabod pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- gofyn am help a chyngor fel y bo'n briodol.

Dylai ysgolion geisio creu amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol. Mae'r rhain yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn cynnig lle diogel i ddysgwyr ystyried yr hyn y maent yn ei ddysgu, gofyn cwestiynau a mynegi eu meddyliau a'u teimladau. Dylai ymarferwyr geisio cyflwyno'r hyn a ddysgir ynghylch materion addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ffordd gadarnhaol ac ystyrlon. Er bod deall risgiau a niwed yn agwedd bwysig ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, mae canolbwyntio ar y rhain wrth addysgu materion addysg cydberthynas a rhywioldeb, neu ganolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau negyddol ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn debygol o fod yn aneffeithiol neu'n niweidiol.

Gellir cyflawni hyn drwy ddatblygu cytundeb gwaith sy'n cynnwys -'rheolau sylfaenol' gyda dysgwyr ar gyfer trafodaethau ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau ffiniau proffesiynol a chadw dysgwyr ac ymarferwyr yn ddiogel. Er enghraifft, gall dulliau gweithredu creadigol helpu dysgwyr i rannu eu cwestiynau, eu safbwyntiau a'u profiadau yn ddienw, gan arwain at drafodaeth fwy agored a gonest.



DRAFT

## Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r Cod hwn yn cynnwys gofynion gorfodol, ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y gofynion hyn i'w gweld yn y crynodeb deddfwriaethol yn y canllawiau fframwaith hyn ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'n rhaid i gwricwlwm a gwaith addysgu a dysgu gynnwys yr elfen orfodol o addysg cydberthynas a rhywioldeb a amlinellir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb canlynol.

### Cynllunio eich cwricwlwm

Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol hwn yn helpu ysgolion i gynllunio eu haddysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar linynnau dysgu cysylltiedig bras, sef

- cydberthnasau a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch.

Mae'r llinynnau hyn yn caniatáu i ymarferwyr gynllunio a datblygu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w dysgwyr, sy'n creu cysylltiadau ac sy'n datblygu cyd-destunau dysgu dilys ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r themâu canlynol fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb: cydberthnasau; hawliau a thegwch; rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd rhywiol a lles; a thrais, diogelwch a chymorth. Er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu haddysg cydberthynas a rhywioldeb, mae'r themâu hyn wedi'u plethu yn y llinynnau dysgu.

Ym mhob un o'r llinynnau dysgu, rhaid i gynnwys y cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn gynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth. Rhaid cynnwys gwaith dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o ran cydberthnasau, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

Mae dysgu am hawliau a thegwch yn rhan o bob llinyn, yn ogystal â gwreiddio dysgu a phrofiad drwy ddulliau dysgu seiliedig ar hawliau.

### Cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr

Yn unol â'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r addysg cydberthynas a rhywioldeb a ddarperir gan ysgolion fod yn briodol i ddatblygiad dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr; ei wybodaeth a'i aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol. Rhaid i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod

DRAFT

yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg fod yn wahanol.

Cynlluniwyd y cyfnodau i roi dealltwriaeth i ymarferwyr o'r hyn sy'n debygol o fod yn briodol o safbwynt datblygiad. Er enghraifft, yn ystod cyfnod 1 a chyfnod 2, bydd dysgwyr yn dysgu am egwyddorion cydsyniad cyffredinol fel rhagofynion ar gyfer dysgu am gydsyniad rhywiol ar yr adeg briodol o safbwynt eu datblygiad yng nghyfnod 3. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yng nghyfnod un a chyfnod dau yn datblygu ymwybyddiaeth o ofyn am ganiatâd i rannu deunyddiau, er enghraifft teganau; neu ddysgu am barchu ffiniau personol.

Cynlluniwyd y cyfnodau er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i benderfynu a yw'r hyn a ddysgir yn briodol i ddatblygiad dysgwyr penodol. Mae'r oedrannau a nodir isod yn dangos yn fras pryd y dylai ymarferwyr ddechrau ystyried a yw'r hyn a ddysgir yn ystod cyfnod yn briodol i ddatblygiad eu dysgwyr. Gall hyn olygu y bydd rhai dysgwyr yn barod i ddysgu pwnc penodol cyn yr oedrannau bras a roddir yn y Cod ond, yn yr un modd, gall olygu y bydd angen rhoi cyfle i rai dysgwyr ddatblygu ymhellach cyn iddynt ymgysylltu â phwnc penodol.  Gellir cyflwyno dysgwyr i gyfnod yn raddol oherwydd bydd rhywfaint o'r hyn a ddysgir yn y cyfnod hwnnw yn briodol i ddatblygiad dysgwyr yn gynt na gwaith dysgu arall. Fel y nodwyd uchod, rhaid gwneud y penderfyniadau hyn ar sail amrywiaeth o ffactorau.

Mae'r tablau sy'n gysylltiedig â phob llinyn dysgu isod wedi eu rhannu'n dri chyfnod datblygu bras. Maent yn cynrychioli camau cynnydd o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt yn flaenorol yng nghyfnod un; neu yng nghyfnodau un a dau, gan ategu ac atgyfnerthu'r un tueddfrydau, gwybodaeth a sgiliau a'u defnyddio mewn cyd-destunau newydd a pherthnasol. Mae hyn yn wahanol iawn i ddysgu am bynciau ar wahân ac yna symud ymlaen at gynnwys arall.

Mae dysgu yng nghyd-destun addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cyfeirio at yr hyn a addysgir yn benodol a'r hyn a ymwreiddir ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol drwy'r dull ysgol gyfan o weithredu.

**Cydberthnasau a hunaniaeth**

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- yr amrywiaeth o gydberthnasau y mae pobl yn eu datblygu drwy gydol eu bywydau
- sut y gall ein cydberthnasau a'n rhywioldeb lywio ein hunaniaeth
- pwysigrwydd hawliau dynol wrth sicrhau cydberthnasau iach, diogel a boddhaus mewn cymdeithas gynhwysol.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu'r ddealltwriaeth a'r ymddygiadau a fydd yn eu helpu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau iach, diogel a boddhaus drwy gydol eu bywydau. Mae angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i adnabod a gwerthfawrogi gwahanol fathau o gydberthnasau, gan gynnwys teuluoedd a chyfeillgarwch, yn ogystal â'r amrywiaeth o fewn gwahanol fathau o gydberthnasau, gan gynnwys amrywiaeth LHDTC+, a sut y gall y rhain newid dros amser. Mae datblygu empathi,

DRAFT

tosturi a sgiliau cyfathrebu yn hollbwysig i gydberthnasau dysgwyr nawr a'r cydberthnasau y byddant yn eu ffurfio yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn eu helpu i barchu a deall pobl eraill a'u trin yn deg, beth bynnag fo'u rhyw, eu rhywedd, eu rhywioldeb, eu ffydd a'u cred.

Mae angen i ddysgwyr hefyd ddatblygu eu hymdeimlad ohonynt eu hunain a'u hymdeimlad bod pawb yn unigryw. Dros amser, gall dysgwyr ystyried sut y gall cydberthnasau, rhyw, rhywedd, atyniad rhamantus a rhywiol a phrofiadau personol lywio a dylanwadu ar hunaniaeth person a'r hyn sy'n ei wneud yn unigryw. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut y caiff hunaniaeth, cydberthnasau a rhywioldeb eu llywio gan fioleg, technoleg a normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol ac y gall y rhain newid dros amser. Drwy ymdrin â'r agweddau hyn, gall dysgwyr adnabod ymddygiadau a normau cadarnhaol a niweidiol a bod yn hyderus i siarad drostynt eu hunain a lleisio barn ac eirioli dros hawliau pobl eraill a'r angen i'w parchu.

Mae'r llinyn hwn hefyd yn cydnabod sut y gall hawliau gefnogi ac ategu cydberthnasau sy'n llawn parch a thegwch, yn ogystal â chymdeithas deg a chynhwysol.

| **Cyfnod 1** | **Cyfnod 2** | **Cyfnod 3** |
|---|---|---|
| Dylai ymarferwyr ystyried priodoldeb datblygiadol dysgwyr ar gyfer yr hyn a ddysgir ym mhob cyfnod: | | |
| **O 3 oed** | **O 7 oed** | **O 11 oed** |
| **Mae'r dysgu yn cefnogi:** | | |
| Y gallu i ddangos caredigrwydd, empathi a thosturi wrth ryngweithio â phobl sy'n agos atynt gan gynnwys cydberthnasau â theulu, cyfeillion a chyfoedion | Y gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau teg, parchus a charedig ag amrywiaeth o bobl eraill. | Dealltwriaeth o'r nodweddion cadarnhaol a negyddol a'r agweddau iach neu afiach ar ystod o gydberthnasau gan gynnwys cydberthnasau teuluol, cyfeillgarwch, rhamantus a rhywiol.<br><br>Y gallu i ddatblygu a deall pwysigrwydd tegwch, parch ar y ddwy ochr, a hoffter mewn cydberthnasau â phobl eraill. |
| Ymwybyddiaeth o sut i gyfleu'r hyn rydych ei eisiau a'i angen mewn cydberthnasau, a dechrau parchu'r hyn y mae pobl eraill ei eisiau a'i angen. | Y ffordd mae deall a defnyddio sgiliau effeithiol o ran cyfathrebu, penderfynu, rheoli gwrthdaro a gwrthod yn rhan o'r broses o sicrhau eich hawliau eich hun a | Deall a defnyddio sgiliau effeithiol o ran cyfathrebu, penderfynu, rheoli a datrys gwrthdaro, a gwrthod mewn ystod o wahanol gyd-destunau a mathau o gydberthnasau, all-lein ac |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae anghenion yn ymwneud â hawliau | hawliau pobl eraill ac yn rhan o gyfeillgarwch a chydberthnasau. | ar-lein, gan gynnwys cydberthnasau agos.<br><br>Deall sut i siarad am ymddygiadau niweidiol yn eu herbyn nhw neu bobl eraill. |
| Ymwybyddiaeth o amrywiaeth o ran teuluoedd a chydberthnasau, gan gynnwys cyfeillgarwch a chydberthnasau â chyfoedion, a pham mae'r rhain yn bwysig. | Adnabod nodweddion gwahanol deuluoedd, cyfeillgarwch a chydberthnasau â chyfoedion ac amrywiaeth y cydberthnasau hyn.<br><br>Dealltwriaeth o ymddygiadau cadarnhaol mewn cydberthnasau a'r hyn a all ddigwydd pan fydd cydberthnasau'n chwalu.<br><br>Ymwybyddiaeth o'r modd y caiff teuluoedd, cydberthnasau a rhianta eu llywio gan normau cymdeithasol a diwylliannol a chyfreithiau sydd wedi newid dros amser. | Dealltwriaeth o'r modd y mae amrywiaeth o ran cydberthnasau, gan gynnwys priodas, a phob math o bartneriaethau sifil, wedi newid dros amser, a'r modd y mae normau cymdeithasol a diwylliannol a chyfreithiau'n cael effaith gadarnhaol a negyddol amrywiol ar gydberthnasau ledled y byd. |
| Datblygu ymdeimlad ohonynt eu hunain, yng nghyd-destun teuluoedd, ffrindiau a chymunedau.<br><br>Gweld bod pobl yn gwerthfawrogi pethau gwahanol a bod ganddynt deuluoedd, ffrindiau a chymunedau gwahanol. | Gweld sut mae cydberthnasau pobl â phobl eraill yn llywio pwy ydynt a'u hapusrwydd.<br><br>Ymwybyddiaeth o sut y gall hunaniaeth gael ei mynegi mewn gwahanol ffyrdd. | Deall sut y mae angen cydbwyso hawliau mewn cymdeithas amrywiol; nodweddion, manteision a heriau byw mewn cymdeithas amrywiol; a sut a pham mae agweddau wedi newid ac yn dal i newid, gan gynnwys agweddau at amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb. |
| Profiad o ymddygiadau, iaith a modelau rôl cynhwysol sy'n dangos parch tuag at bobl eraill, beth bynnag fo'u rhywedd. | Gwerthfawrogi a chydnabod cyfraniadau pawb; a phwysigrwydd cydraddoldeb o ran rhyw a rhywedd. | Y gallu i eirioli dros hawliau pawb a'u hyrwyddo a deall a pharchu pawb mewn perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Cydnabod hawliau dysgwyr i gael eu trin yn deg, yn garedig ac yn barchus. | Adnabod stereoteipiau o ran rhywedd, stereoteipiau rhywiol ac ymddygiad annheg, a gwybod sut i ymateb yn ddiogel iddynt a'u herio.<br><br>Ymwybyddiaeth o'r modd y mae normau cymdeithasol a diwylliannol cadarnhaol a negyddol o ran rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn dylanwadu ar gydberthnasau ac ymddygiadau | Deall y modd y mae'r gyfraith a hawliau dynol yn sicrhau rhyddid o ran rhyw, rhywedd a rhywioldeb a'r modd y gall y rhain amrywio mewn gwledydd eraill a thros amser.<br><br>Y gallu i ystyried yn feirniadol a deall sut y gall ystod o normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol o ran cydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb lywio canfyddiadau a'n lles ac y gallant fod yn gadarnhaol ac yn niweidiol. |

**Iechyd rhywiol a lles**

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- dysgu am y ffordd y mae pethau byw yn tyfu, yn atgenhedlu ac yn mynd drwy gylchred bywyd
- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a'r ffordd y gall y teimladau hyn gael eu cynrychioli
- y materion iechyd sy'n gysylltiedig â chydberthnasau a rhywioldeb
- dealltwriaeth o'r ffordd y mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ar ein lles.

Yn natblygiad cynnar, mae angen i ddysgwyr brofi cyd-destunau ar gyfer deall pwysigrwydd cynnal iechyd a lles personol, gan gynnwys hylendid, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio arnyn nhw a phobl eraill. Caiff hyn ei ddatblygu wedyn i gymhwyso egwyddorion iechyd a hylendid cyffredinol at y maes iechyd rhywiol.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, mae angen i'r hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir ganolbwyntio ar ystyried y ffordd y mae newidiadau corfforol yn effeithio ar les a chydberthnasau gan sicrhau bod profiadau a bywydau LHDTC+ yn cael eu cynrychioli. Mae'r hyn a ddysgir hefyd yn canolbwyntio ar les mislif a chyflyrau sy'n gallu effeithio ar y system atgenhedlu; yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o ganlyniadau posibl y penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag iechyd a chydberthnasau rhywiol. Bydd y dysgu hyn i gyd yn canolbwyntio ar gydnabod amrywiaeth y corff dynol, a'r ffordd y mae'r canfyddiad a'r ddealltwriaeth o'r corff dynol wedi'u llywio gan gymdeithas, y gyfraith, gwyddoniaeth a thechnoleg, a'r effaith a gaiff hyn ar les.

DRAFT

| Cyfnod 1 | Cyfnod 2 | Cyfnod 3 |
|---|---|---|
| Dylai ymarferwyr ystyried priodoldeb datblygiadol dysgwyr ar gyfer yr hyn a ddysgir ym mhob cyfnod: | | |
| **O 3 oed** | **O 7 oed** | **O 11 oed** |
| **Mae'r dysgu yn cefnogi:** | | |
| Defnyddio terminoleg gywir ar gyfer pob un o rannau'r corff.<br><br>Ymwybyddiaeth o gylchred bywyd pobl a bod atgenhedlu yn rhan o fywyd. | Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae organau atgenhedlu yn datblygu yn y corff dynol. Mae hyn yn cynnwys deall ffrwythlondeb a phrosesau atgenhedlu, gan gynnwys yr hyn sy'n cefnogi iechyd a lles mislif.<br><br>Adnabod y broses ar gyfer beichiogrwydd a genedigaeth. | Deall sut y gall ffrwythlondeb, gweithrediad rhywiol ac iechyd a lles mislif newid yn ystod bywyd a sut i ddod o hyd i wybodaeth a chymorth pan fo angen.<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae hormonau yn parhau i effeithio ar iechyd emosiynol a chorfforol yn ystod oedolaeth.<br><br>Dealltwriaeth o'r ffordd y gall dulliau atal cenhedlu fod o gymorth gyda dewisiadau atgenhedlu, gan gynnwys ymwybyddiaeth o erthyliad. |
| Ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae cyrff dynol yn newid wrth iddynt dyfu. | Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl yn profi newidiadau corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol sylweddol yn ystod y glasoed. | Dealltwriaeth o iechyd rhywiol ac atgenhedlol da, gan gynnwys yr ystod o risgiau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â phrofiadau rhywiol a'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus am weithgarwch rhywiol a dewisiadau atgenhedlol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hunanofal a hylendid personol. | Yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli hunanofal a hylendid personol, gan gynnwys pwysigrwydd lles mislif. | Gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion, symptomau ac effaith cyflyrau sy'n gysylltiedig ag iechyd rhywiol ac atgenhedlol a ffrwythlondeb, gan gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. HIV a chanserau atgenhedlol.<br><br>Y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i leihau risgiau a gofyn am help. |
| Cydnabyddiaeth bod corff pawb yn unigryw ac yn arbennig iddyn nhw. | Ymwybyddiaeth bod llawer o wahanol ffynonellau o wybodaeth all-lein ac ar-lein sy'n ein helpu i ddysgu am ein cyrff ac sy'n effeithio ar y ffordd rydym yn teimlo am ein corff a chyrff pobl eraill. | Ymgysylltu'n feirniadol â chynrychioliadau cadarnhaol a negyddol o gyrff amrywiol, gan gynnwys drwy fathau gwahanol o gyfryngau, a deall y gall y rhain fod yn afrealistig ac yn niweidiol. |
| Ymwybyddiaeth o'r teimladau gwahanol y gellir eu cael, gan gydnabod teimladau pobl eraill a'r ffordd y gallai'r rhain fod yn wahanol i'ch teimladau eich hun. | Ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall pobl deimlo atyniad at bobl eraill wrth iddynt aeddfedu a'r ffordd y gall hyn arwain at ymatebion emosiynol a chorfforol. | Deall bod hawl gan bawb i gael cydberthnasau diogel a phleserus a chydnabod y rôl y mae gweithgarwch rhywiol cydsyniol yn ei chwarae mewn cydberthnasau iach.<br><br>Dealltwriaeth o'r oedran cydsynio cyfreithiol. |
| Adnabod oedolion dibynadwy a all eu helpu ac y gallant siarad â nhw a gofyn cwestiynau iddynt, yn enwedig pan fyddant yn teimlo'n anhapus neu'n anniogel. | Gallu nodi ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a chodi materion a gofyn cwestiynau i oedolion dibynadwy. | Gwybod am ystod o wasanaethau cymorth a gallu eu defnyddio, er mwyn cael gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â chydberthnasau, iechyd a lles, a diogelwch. |

DRAFT

**Grymuso, diogelwch a pharch**

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth
- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch i bawb.

Mae'r llinyn hwn yn adeiladu ar ymddygiadau a sgiliau cadarnhaol cydberthnasau iach. Mae'n atgyfnerthu'r gofyniad i gefnogi dysgwyr i ddatblygu empathi, caredigrwydd a thosturi tuag at ei gilydd a'u grymuso â'r hyder i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael os ydynt yn poeni am eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill.

Dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ddeall newid a gwrthdaro ac adnabod effaith y rhain ar gydberthnasau, a gofyn am help a chymorth lle bo hynny'n briodol.

Dylid eu cefnogi i ddeall bod arfer eu hawl i fod yn rhydd rhag unrhyw fath o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael ei alluogi gan oedolion dibynadwy sy'n gallu eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys nifer o fesurau amddiffyn cyfreithiol sy'n bodoli i bawb. Mae ymddygiadau o'r fath yn anghyfreithlon o dan gyfraith trosedd ac mae cosbau troseddol i'r rhai a gaiff eu dyfarnu'n euog o gyflawni troseddau o'r fath.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o natur ac effaith gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol ymddygiadau niweidiol, gan gynnwys pob bwlio a bwlio pobl LHDTC+, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys ar-lein.

| **Cyfnod 1** | **Cyfnod 2** | **Cyfnod 3** |
|---|---|---|
| Dylai ymarferwyr ystyried priodoldeb datblygiadol dysgwyr ar gyfer yr hyn a ddysgir ym mhob cyfnod: | | |
| **O 3 oed** | **O 7 oed** | **O 11 oed** |
| **Mae'r dysgu yn cefnogi:** | | |
| Adnabod ymddygiad niweidiol gan gynnwys ymddygiadau sy'n gwahaniaethu, a'r hawl i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.<br><br>Y gallu i ryngweithio ag eraill mewn ffordd deg. | Dealltwriaeth o bwysigrwydd trin pawb yn deg a dangos parch ym mhob cyswllt rhyngbersonol all-lein ac ar-lein.<br><br>Cydnabod gwerth ymddygiadau | Dealltwriaeth o bwysigrwydd cynhwysiant, gan gynnwys cynhwysiant i bobl LHDTC+, ymddygiad anwahaniaethol a gwerth amrywiaeth yn ein hymddygiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | anwahaniaethol a phryd a sut i gymryd camau diogel er mwyn ymateb i ymddygiadau gwahaniaethol a'u herio. | rhyngbersonol a'n cydberthnasau.<br><br>Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb cymdeithasol tuag at eraill, gan gynnwys ystyried y ffordd rydym yn ymateb i ymddygiadau gwahaniaethol, amharchus a niweidiol, all-lein ac ar-lein. |
| Cydnabod yr hawl i fod yn rhydd rhag ymddygiad niweidiol, camdriniaeth a bwlio.<br><br>Ymwybyddiaeth o sut i adnabod ymddygiadau cadarnhaol a niweidiol, gan gynnwys bwlio.<br><br>Y gallu i rannu profiad o ymddygiadau niweidiol ag oedolyn dibynadwy. | Dealltwriaeth o hawl pawb i beidio â chael eu niweidio na'u cam-drin.<br><br>Ymwybyddiaeth o wahanol fathau o ymddygiad niweidiol neu gamdriniol gan gynnwys camdriniaeth ac esgeulustod corfforol, rhywiol ac emosiynol, gan gynnwys aflonyddu a bwlio rhwng cyfoedion a'r rôl y gall technoleg ei chwarae.<br><br>Sut i ofyn am gymorth i chi'ch hun a rhoi cymorth i eraill.<br><br>Sut i fod yn ffrind da ac eirioli dros bobl eraill. | Adnabod ymddygiad niweidiol, camdriniol neu orfodol mewn cydberthnasau personol, gan gynnwys rheoli, trais a thrais rhywiol a sut i ymateb a gofyn am gymorth i chi'ch hun a phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys pob math o drais ar sail rhyw, rhywedd a rhywioldeb. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| *(Mae cyfnodau 1 a 2 yn cynnwys gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol er mwyn deall yr hyn a ddysgir am gydsyniad yng nghyfnod 3)*<br><br>Dechrau sylweddoli bod gan bobl eraill feddyliau, teimladau a safbwyntiau gwahanol<br><br>Ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau cytundeb er mwyn rhannu, er enghraifft, teganau.<br><br>Ymwybyddiaeth o hawl pawb i breifatrwydd, ffiniau personol a pha rannau o'r corff sy'n breifat.<br><br>Y gallu i gyfathrebu os oes rhywun yn cyffwrdd â nhw mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. | Deall yr hawl i breifatrwydd corfforol, ffiniau personol, gan gynnwys ar-lein.<br><br>Deall sut y gall ymddygiadau gael eu dehongli gan bobl eraill all-lein ac ar-lein.<br><br>Gwybod pa gamau i'w cymryd i gadw'n ddiogel rhag niwed mewn cyfeillgarwch all-lein ac ar-lein.<br><br>Deall y pwysau a'r normau cymdeithasol ac emosiynol sy'n arwain at ymddygiadau, cyfeillgarwch a chydberthnasau anghydsyniol, er enghraifft, normau o ran rhywedd.<br><br>Meithrin y sgiliau i ddatblygu ymddygiadau a chydberthnasau cydsyniol a gwybod sut i ymateb yn ddiogel i ymddygiadau a chydberthnasau anghydsyniol all-lein ac ar-lein, eu herio a rhoi gwybod amdanynt. | Deall pwysigrwydd cydsyniad ar gyfer cydberthnasau iach a diogel ac yn enwedig gydberthnasau rhywiol.<br><br>Deall sut y gellir cyfleu cydsyniad mewn gwahanol gydberthnasau a chyd-destunau cymdeithasol, gan gynnwys ar-lein.<br><br>Dealltwriaeth feirniadol o'r ffordd y mae canfyddiad a chyd-destun cymdeithasol yn effeithio ar gydsyniad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ac yn amharu ar allu pobl i ymddwyn mewn ffordd gydsyniol, er enghraifft, sylweddau, trais, gorfodaeth a normau o ran cydberthnasau. |
| Ymwybyddiaeth o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio cyfryngau digidol, gan gynnwys rhoi gwybod i oedolyn dibynadwy pan fyddant yn teimlo'n anghyfforddus neu'n ofnus. | Gwybod sut a phryd y gellir rhannu cyfryngau digidol yn ddiogel, gyda chaniatâd a phryd y gall fod yn niweidiol.<br><br>Ymwybyddiaeth o fanteision a pheryglon y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol wrth wneud ffrindiau ar-lein.<br><br>Ystyried y cymhellion y tu ôl i gyfryngau sydd wedi eu ffugio a'u haddasu'n ddigidol. | Dealltwriaeth o'r materion moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud â rhannu delweddau a hunan-gynhyrchwyd drwy gydsyniad neu heb gydsyniad, a hawliau i ddiogelwch, cymorth, lles ac amddiffyniad.<br><br>Dealltwriaeth o'r effeithiau sy'n gysylltiedig â deunydd rhywiol a chydberthnasau rhywiol |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Dealltwriaeth o'r angen i gadw'n ddiogel ar-lein, y gallu i gymryd camau i amddiffyn eu hunain a'r gallu i roi gwybod i oedolion dibynadwy pan fyddant wedi gweld rhywbeth na ddylent fod wedi ei weld, neu rywbeth sy'n peri loes iddynt neu'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. | ar-lein, gan gynnwys y goblygiadau moesegol a chyfreithiol.<br><br>Ymwybyddiaeth o'r modd y mae deunydd a chyfryngau rhywiol, yn aml yn cynrychioli rhywedd, gweithgarwch rhywiol, ymddangosiad corfforol a chydberthnasau mewn ffyrdd afrealistig a niweidiol. |
| Ymwybyddiaeth bod gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel ac nad oes hawl gan neb niweidio rhywun arall.<br><br>Y gallu i siarad dros ei gilydd. | Ymwybyddiaeth bod deddfau ar waith i amddiffyn pobl rhag gwahanol fathau o wahaniaethu, trais, camdriniaeth, esgeulustod ac aflonyddwch. | Dealltwriaeth o'r deddfau sydd ar waith mewn perthynas â materion addysg cydberthynas a rhywioldeb i'n hamddiffyn rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth, esgeulustod ac aflonyddwch, ac mai diben deddfau yw amddiffyn nid troseddoli pobl ifanc.<br><br>Dealltwriaeth o sut i eirioli dros amgylcheddau diogel a hawliau a dealltwriaeth pawb ynghylch ystod o faterion addysg cydberthynas a rhywioldeb.<br><br>Gwerthfawrogi pwysigrwydd lleisio barn yn ddiogel yn erbyn trais ar sail rhyw a rhywedd a thrais rhywiol. |

DRAFT

**Geirfa**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Bwlio | Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir fel arfer dros amser, sy'n brifo eraill yn fwriadol naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol. |
| Cydberthnasau | Gall y rhain fod yn gydberthnasau rhyngbersonol neu'n gydberthnasau â'r hunan. Mae cydberthnasau rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnasau â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallant fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol. |
| Cydsyniad | Pan fo un person yn rhoi cydsyniad gwybodus a rhydd i berson arall wneud rhywbeth sy'n effeithio arno. Mae'n bwysig bod pobl yn gofyn am gydsyniad cyn iddynt wneud rhywbeth sy'n effeithio ar berson arall. Mae'n bwysig hefyd fod penderfyniad person yn cael ei barchu – os bydd yn dweud 'na' i rywbeth, yna ni ddylai'r person arall wneud y peth hwnnw. |
| Cyfnod | Yng nghyd-destun y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae cyfnod yn nodi pryd y byddai'r dysgu'n ddatblygiadol briodol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. |
| Cynhwysol | Y broses o atgyfnerthu gallu'r system addysg i gyrraedd pob dysgwr.<br>Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysol yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws amrediad o hunaniaethau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb, a bod yr amrywiaeth hon yn ffynhonnell cryfder ac yn greiddiol i gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn. |
| Dull ysgol gyfan | Proses effeithiol o gysylltu pob elfen o gwricwlwm, polisïau, staff, cymuned, gwasanaethau ac amgylchedd ysgol. Mae'n annog y broses o gyfleu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson ac yn cynnig cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn rhan o'r dull gweithredu mewn perthynas ag iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Eirioli | Cefnogi hawliau pobl eraill drwy helpu i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n cael eu clywed a llywio penderfyniadau. |
| LHDTC+ | Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/traws, gwiar neu bobl sy'n cwestiynu. Mae'r + yn cyfeirio at lythrennau eraill y gellir eu hychwanegu i gynnwys hunaniaethau eraill, gan gynnwys anneuaidd. |
| Nodweddion gwarchodedig | Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. |
| Rhyw | Caiff ei briodoli ar gyfer unigolyn ar sail nodweddion rhywiol sylfaenol (organau cenhedlu) a swyddogaethau atgenhedlol. |
| Rhywedd | Fe'i defnyddir yn aml i nodi a yw rhywun yn ystyried ei hun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd. Mae rhywedd yn gallu cyfeirio hefyd at y normau cymdeithasol a diwylliannol a'r gwahaniaethau sy'n cael eu dal gan wahanol gymdeithasau ynglyn a'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn, yn edrych neu yn wisgo. Mae pobl yn aml yn canfod ymdeimlad pwysig o hunaniaeth yn y rhain ond gallant hefyd barhau gwahaniaeth, anghydraddoldebau a niweidiau. |
| Rhywioldeb | Agwedd ganolog ar fodau dynol. Mae'n cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaethau a rolau o ran rhywedd, rhyw, atgenhedlu ac agosrwydd. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi drwy feddyliau, credoau, ymddygiadau a chydberthnasau. |
| Tegwch | Triniaeth deg a diduedd, gan gynnwys triniaeth gyfartal neu driniaeth wahaniaethol er mwyn unioni anghydbwysedd o ran hawliau, buddiannau, rhwymedigaethau a chyfleoedd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Trais ar sail rhywedd | (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddwch sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un a yw'n gyfreithiol gyfrwymol ai peidio). |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Gallai addysg cydberthynas a rhywioldeb, er ei bod yn meithrin agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol, hefyd roi cyfle i ddysgwyr ystyried nodweddion cydberthnasau nad ydynt yn iach. |
| Ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth | Yn ystod eu datblygiad cynnar, mae dysgwyr yn profi dulliau cyfannol o archwilio cydberthnasau, a chânt eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth ohonynt eu hunain yn y byd. Mae ymwybyddiaeth dysgwyr yn cynyddu wrth iddynt wneud cynnydd o ran eu dysgu gyda chysyniadau'n cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â datblygiad y dysgwr. Wrth iddynt fynd drwy'r continwwm, mae dysgwyr yn meithrin mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ac, yn aml, yn cael mwy o brofiad o'r themâu gwahanol sy'n rhan o'r cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb. |

DRAFT

**[DS: caiff y canllawiau canlynol eu hychwanegu at y Crynodeb Deddfwriaethol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar-lein - sydd hefyd yn cael ei ddiweddaru ac a fydd yn cynnwys isadran benodol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb. Gweler:** Crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig – Hwb (llyw.cymru)]

## Crynodeb deddfwriaethol – Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

### Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn elfen orfodol o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a rhaid i gwricwlwm gyd-fynd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau gynnwys y ddarpariaeth ddysgu a nodir yn y Cod. Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nid yw dysgu ac addysgu yn cwmpasu elfen orfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb chwaith oni bai eu bod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Caiff y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei amlinellu a cheir cyfeiriadau ato yn yr adran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o'r canllawiau fframwaith.

Cyhoeddir y Cod hwn o dan adran 8 o'r Ddeddf.

### Canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r adran addysg cydberthynas a rhywioldeb o'r canllawiau fframwaith hefyd yn cynnwys canllawiau ar ddatblygu addysg cydberthynas a rhywioldeb o fewn cwricwlwm a'i rhoi ar waith. Mae'r canllawiau hyn yn ganllawiau statudol ac fe'u cyhoeddir o dan adran 71 o'r Ddeddf. Rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu cwricwlwm ddarllen ac ystyried y canllawiau hyn wrth gynllunio eu cwricwlwm.

O dan y Ddeddf, mae’r canllawiau hyn yn statudol ar gyfer y canlynol:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy’n darparu addysg a dysg i blentyn y tu allan i ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion (addysg heblaw yn yr ysgol)
- awdurdod lleol yng Nghymru.

Fel yr amlinellir yn adran 50 o'r Ddeddf, rhaid i leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb, a rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n briodol o safbwynt datblygiad.

Caiff addysg cydberthynas a rhywioldeb ei chyflawni orau mewn partneriaeth ag ystod eang o bobl a sefydliadau. Felly, gall hefyd fod yn ddefnyddiol i fusnesau; cymunedau; sefydliadau elusennol a gwirfoddol yn y sector cyhoeddus a rhai eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i rieni a gofalwyr.

**Gofyniad plwraliaethol**

Ym mhob ysgol a lleoliad, rhaid i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol o ran ei chynnwys a'r modd y caiff ei haddysgu (gweler achos 'Dojan ac Eraill v. Germany 2011 application no. 319/08'). Wrth ddefnyddio'r term plwraliaethol, rydym yn golygu pan fo cwestiynau o ran gwerthoedd yn codi, rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu ystod o safbwyntiau ar bwnc, a fynegir yn gyffredin mewn cymdeithas. Mae hyn hefyd yn golygu darparu ystod o wybodaeth ffeithiol am faterion sy'n gysylltiedig ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ym mhob ysgol, pan fyddant yn ystyried credoau neu safbwyntiau penodol, rhaid cynnwys ystod o safbwyntiau ffydd eraill a safbwyntiau anghrefyddol ar y mater.

Er enghraifft, gallai ysgolion ddysgu am densiynau, anghytundeb neu ddadleuon presennol mewn cymdeithas, neu gallant edrych ar safbwyntiau gwahanol o fewn credoau ar faterion. Mae datblygu'r blwraliaeth hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus sy'n ymwybodol o ystod o safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau gwahanol ac yn sensitif iddynt. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu â thensiynau posibl ac ymdrin â nhw.

Mae dealltwriaeth dda o safbwyntiau, gwerthoedd datblygol a chefndiroedd dysgwyr yn ganolog i ddatblygu'r blwraliaeth hon. Gall cydberthnasau cadarnhaol â chymunedau ehangach helpu i greu cyd-destun adeiladol ar gyfer ystyried agweddau a thensiynau mewn ffordd sensitif.

**Hawliau plant**

Mae hawliau plant o dan CCUHP yn ganolog i holl waith Llywodraeth Cymru, yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i CCUHP ym mhopeth a wna.

Gall ysgolion a lleoliadau hefyd gysylltu'r hyn a ddysgir â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Caiff ysgolion a lleoliadau eu hannog hefyd i gysylltu dysgu'n effeithiol, lle bo hynny'n briodol, â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus (2010); a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn benodol, dylai ysgolion a lleoliadau eraill nodi bod cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion) yng Nghymru, a'i fod yn gwneud synnwyr addysgol da i gydymffurfio â hi. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn helpu ysgolion i ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n peri pryder a sut i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys nodi ble y gallwn gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a meithrin cydberthnasau da, a lle y bo'n bosibl, liniaru effeithiau negyddol a all ddeillio o benderfyniadau.

Ym mhob ysgol a lleoliad, dylai dulliau addysgu adlewyrchu'r gyfraith (gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010) fel y bo'n gymwys i gydberthnasau, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall yn glir yr hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir gan y gyfraith, a goblygiadau cyfreithiol ehangach y penderfyniadau a wneir ganddynt.

O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, ni ddylai ysgolion wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn dysgwyr ar sail oedran, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, neu gyfeiriadedd rhywiol (a elwir gyda'i gilydd yn nodweddion gwarchodedig). Mae'n rhaid i ysgolion wneud addasiadau rhesymol hefyd er mwyn lliniaru unrhyw anfantais.

Mae darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i ysgolion gymryd camau cadarnhaol, lle y gellir dangos eu bod yn rhai cymesur, i fynd i'r afael ag anfanteision penodol sy'n effeithio ar un grŵp oherwydd nodwedd warchodedig. Dylid ystyried hyn wrth gynllunio a chyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Dylai ysgolion ystyried cyfansoddiad eu dysgwyr eu hunain, gan gynnwys eu rhywedd a'u hystod oedran, ac ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o bosibl). Dylai ysgolion ystyried yr hyn y gallant ei wneud i feithrin proses gyfathrebu ac ymddygiad iach, llawn parch rhwng dysgwyr, a chynnig amgylchedd sy'n herio terfynau canfyddedig yn seiliedig ar rywedd neu unrhyw nodwedd arall, gan gynnwys drwy'r pynciau hyn ac fel rhan o ddull ysgol gyfan.

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae Deddf 2015 yn rhoi ffocws ar drais yn erbyn menywod a merched drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) o dan y Ddeddf (a ddiffinnir yn adran 2(2) o'r Ddeddf honno fel “swyddogaethau perthnasol”), roi sylw i'r

DRAFT

angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched neu sy'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau perthnasol roi sylw i bob mater perthnasol arall hefyd. Drwy wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn a gosod swyddogaethau ar y cyrff strategol hynny i lunio cynllun er mwyn dileu neu leihau ymddygiadau o'r fath.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyffwrdd â llawer o fywydau. Mae yna oblygiadau difrifol iawn i ddysgwyr, fel dioddefwyr eu hunain, mewn cartrefi lle y ceir cam-drin domestig. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u lles yn gyffredinol. Mae'n effeithio ar gydberthnasau â'u teulu a chyfoedion, a'r potensial i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol; a gall effeithio ar gyrhaeddiad addysgol nawr ac yn y dyfodol.

Bydd yna ddysgwyr a staff mewn ysgolion ar hyn o bryd sy'n dioddef, neu'n wynebu risg o ddefnyddio, ymddygiad camdriniol yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu sydd wedi eu dioddef neu eu defnyddio yn y gorffennol. Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr a'u staff yn ddiogel ac yn iach.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle i Gymru arwain y ffordd o ran gwaith ataliol. Mae lleoliadau addysgol yn cynnig amgylchedd lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae mabwysiadu dull ysgol gyfan o weithredu sy'n cynnwys addysg ataliol yn yr ysgol ac sydd hefyd yn cynnwys y gymuned ehangach yn hollbwysig.

Datblygwyd Canllaw Arfer Da ar gyfer Dull Addysg Gyfan Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru. Bwriedir iddo fod yn becyn cymorth ymarferol a defnyddiol ar gyfer cymhwyso egwyddorion dull addysg gyfan o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysgol fel amgylcheddau lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ymarferol i lywodraethwyr ysgolion ar yr angen i ddatblygu polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; sut i nodi arwyddion o gam-drin a ble i gael cymorth iddyn nhw eu hunain, eu cydweithwyr neu eu dysgwyr.

DRAFT

**Dolenni perthnasol**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Diogelu - canllaw Llywodraeth Cymru Cadw dysgwyr yn ddiogel

canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf (llyw.cymru)

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: canllawiau i lywodraethwyr | LLYW.CYMRU

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion | LLYW.CYMRU

Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc - Hwb (gov.wales)

DRAFT

**[DS: i'w gynnwys yn adrannau Cynllunio eich Cwricwlwm pob Maes ar y fersiwn ar-lein o Hwb – ‘sut mae pob maes yn cyfrannu at addysg cydberthynas a rhywioldeb’]**

### Y celfyddydau mynegiannol

Mae'r celfyddydau mynegiannol yn gyfrwng grymus ar gyfer ystyried a mynegi teimladau, meddyliau, safbwyntiau a phrofiadau mewn perthynas ag ystod o themâu addysg cydberthynas a rhywioldeb. Gall y broses greadigol sy'n rhan gynhenid o'r celfyddydau mynegiannol ddarparu amgylchedd diogel, cynhwysol ac arloesol i ddysgwyr ystyried, mynegi a myfyrio ar brofiadau a theimladau na fyddent o bosibl yn eu rhannu mewn ffyrdd eraill. Gall hyn helpu ymarferwyr i ddeall yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod am addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ogystal â'u hanghenion dysgu, eu cwestiynau a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Fel llenyddiaeth, mae'r celfyddydau mynegiannol hefyd yn rhoi cyfle i edrych ar sut y mae gwahanol themâu ym maes addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi cael eu hystyried, eu cyflwyno a'u cyfleu drwy gydol hanes ac mewn diwylliannau a chymdeithasau gwahanol.

Mae'r dysgu hyn hefyd yn eu helpu i ddeall sut mae'r celfyddydau mynegiannol yn llywio ein syniadau a'n teimladau ac yn rhoi mewnwelediad a dealltwriaeth o brofiadau a safbwyntiau pobl eraill.

### Iechyd a lles

Mae iechyd a lles, wrth gwrs, yn ganolog i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r Maes yn cynnig llwyfan pwysig i ddysgu am gydberthnasau iach; sut mae normau a dylanwadau cymdeithasol yn llywio ein canfyddiadau o ran cydberthnasau a rhywioldeb; goblygiadau cydberthnasau a rhywioldeb i'n hiechyd corfforol a meddyliol a'n lles emosiynol; yn ogystal â gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun cydberthnasau a rhyw. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a strategaethau personol i'w galluogi i fwynhau iechyd a lles da drwy gydol eu bywydau. Mae'r Maes hwn hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ystyried sut mae materion yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cysylltu â materion ehangach o ran iechyd a lles: sut mae iechyd a lles ehangach yn dylanwadu ar gydberthnasau a rhywioldeb ac, yn yr un modd, sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles ehangach.

### Mathemateg a Rhifedd

Gall mathemateg a rhifedd chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo cynhwysiant ac osgoi stereoteipiau drwy'r enghreifftiau, yr astudiaethau achos a'r senarios a ddewisir. Gall hefyd gynnig modelau rôl pwysig o ran rhywedd a rhywioldeb amrywiol sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig at fathemateg.  Gellir hefyd ddefnyddio ystadegau a rhifedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r data ystadegol a ddefnyddir i ddatblygu tystiolaeth ynghylch cydraddoldebau ac anghydraddoldebau, er enghraifft, ynghylch tâl neu ddewisiadau gyrfa.

**Y Dyniaethau**

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfle pwysig i ddysgwyr ddeall sut mae dealltwriaeth gymdeithasol o gydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb wedi newid dros amser a'r ffordd y mae'n parhau i esblygu. Gall astudio addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy'r dyniaethau ysbrydoli dysgwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o faterion pwysig a datblygu'r sgiliau i ddehongli syniadau a chyflwyniadau am addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy gydol hanes ac mewn diwylliannau a chyd-destunau gwahanol ledled y byd. Er enghraifft, gellid ystyried sut mae normau a chanfyddiadau o bobl LHDTC+ wedi newid dros amser. Mae hefyd yn cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â gwybodaeth yn feirniadol, deall sail gwybodaeth a gaiff ei chyflwyno fel ffaith, a gwneud penderfyniadau beirniadol am sut i ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael iddynt ac ymateb iddynt.

Mae'r Maes hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ystyried hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau a safbwyntiau crefyddol mewn perthynas â chydberthnasau a rhywioldeb. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd pwysig i ddysgwyr drafod, ystyried a datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol ar faterion addysg cydberthynas a rhywioldeb, a gaiff ei llywio gan fydolwg crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesegol a materion yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddeall y tensiynau rhwng gwahanol safbwyntiau a mynd i'r afael â nhw. Gall hyn gefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â materion addysg cydberthynas a rhywioldeb ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

DRAFT

**Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu**

Mae siarad, gwrando, ymateb a magu empathi yn sgiliau sy'n hollbwysig i bob mater sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, gan gynnwys gwneud ffrindiau, gofyn am gyngor ac, yn y dyfodol, ddatblygu cydberthnasau rhywiol iach. Mae'r Maes hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr wneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei glywed, ei ddarllen, ei weld a'i deimlo pan fyddant yn ymgysylltu â llenyddiaeth, gwahanol gyfryngau a'r byd o'u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddadansoddi ac ystyried gan ddefnyddio ystod o gyfryngau, arddulliau a genres. Yng nghyd-destun addysg cydberthynas a rhywioldeb, gallai hyn gynnwys ystyried delweddau corfforol neu stereoteipiau o gydberthnasau mewn cartwnau, ffilmiau, barddoniaeth, ffuglen, rhaglenni dogfen ac, yn gynyddol, lwyfannau cyfathrebu ac adrodd storïau digidol.

Mae'r Maes hwn hefyd yn galluogi dysgwyr i brofi ystod o bynciau addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n aml yn heriol ac yn sensitif ac ymateb iddynt fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, adroddwyr a chrewyr. Fel y cyfryw, gall gynnig ffyrdd diogel, cynhwysol a chreadigol o ystyried pynciau addysg cydberthynas a rhywioldeb o safbwyntiau diwylliannol ac ieithyddol amrywiol. Gall dysgwyr ystyried sut y caiff themâu allweddol ym maes addysg cydberthynas a rhywioldeb eu trin mewn llenyddiaeth a'u llywio gan iaith. Gall hyn helpu dysgwyr i ddechrau meddwl yn feirniadol am y modd y mae normau o ran cydberthnasau, rhywedd, rhyw a chyrff yn amlygu eu hunain mewn diwylliannau a chymunedau gwahanol, gan gynnwys eu

diwylliant a'u cymuned eu hunain. Gall ystyried addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy lenyddiaeth hefyd helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth a gwahaniaeth.

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am fioleg ddynol, cylchredau bywyd ac atgenhedlu ond mae'n cyfrannu mewn ffyrdd pwysig eraill hefyd. Gall y Maes hwn gefnogi dysgwyr i ofyn cwestiynau a chwestiynu sut mae pethau'n gweithio, sy'n cefnogi eu hymgysylltiad ag addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae'r Maes hwn hefyd yn cefnogi dysgwyr i asesu data a ffynonellau ym maes addysg cydberthynas a rhywioldeb, datblygu dealltwriaeth feirniadol o sail gwybodaeth a gaiff ei chyflwyno fel ffaith, a gwneud penderfyniadau beirniadol am sut i ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a'r data sydd ar gael iddynt ac ymateb iddynt.

Mae'r Maes hwn hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio technolegau digidol, deall sut maent yn gweithio ac adnabod y goblygiadau cyfreithiol, cymdeithasol a moesegol eang sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau diogel a moesegol wrth ddefnyddio technoleg i wneud ffrindiau, datblygu cymunedau, ystyried eu hunaniaethau a bod yn rhan o gydberthnasau rhamantaidd a rhywiol yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i ystyried sut mae cyfrifiant, algorithmau a phrosesu data yn llywio canfyddiadau o gyrff, cydberthnasau, rhywedd a rhywioldeb.

DRAFT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **24 Tachwedd 2021** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021**

**Trosolwg o'r Offeryn Statudol o ran polisi**

Nod yr offeryn hwn yw parhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, a ddechreuodd y broses o ddirymu cyfraith yr UE ar ystadegau. Diben yr offeryn hwn yw dirymu gweddill cyfraith yr UE a ddargedwir ar ystadegau, gan gynnwys deddfwriaeth newydd sydd wedi dod i rym ers drafftio offeryn 2019.

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r Offeryn Statudol (OS) sy'n gorfodi rhwymedigaethau ar y DU i ddarparu data ystadegol penodol i Eurostat, swyddfa ystadegol y Comisiwn Ewropeaidd, at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r OS, sy'n gosod y safonau a'r dosbarthiadau ystadegol y mae'n rhaid i ddata ystadegol eu bodloni at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol.

Bydd y rheoliadau yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir (Rheoliadau a Phenderfyniadau) mewn perthynas â darparu a chasglu ystadegau ar lefel yr UE.

Bydd y rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015 a Deddf Diogelu Data 2018 fel bod y cyfeiriadau ynddynt at safonau Ewropeaidd penodol yn cael effaith o fewn cyfraith yr UE a ddargedwir o ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2021/1300/contents/made

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru gan ei fod yn dechnegol ei natur yn unig.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan ei fod yn dechnegol ei natur yn unig.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y DU i gyd, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**004 - Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Tachwedd 2021*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Gwnaed Negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Gwnaed Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**
Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1), o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

**Crynodeb**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â darparu a chasglu ystadegau. Mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn ddarostyngedig i lyfr statud mawr gan yr UE sy'n ymwneud â chynhyrchu ystadegau'r UE. Mae'r rhan fwyaf o gyfraith ystadegau'r UE yn gofyn am gasglu data, cynhyrchu ystadegau a throsglwyddo data o'r fath i'r UE er mwyn cynhyrchu ystadegau'r UE. Mae cyfraith ystadegau'r UE yn pennu amserlenni ar gyfer arolygon, cyfnodau cyfeirio, meini prawf

ansawdd, dosbarthiadau a safonau y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer ystadegau'r UE. Gan fod cyfraith ystadegau'r UE yn ymwneud ag ystadegau'r UE yn unig, nid yw'n rhoi unrhyw bwerau ar gyfer cynhyrchu ystadegau'r DU. Mae system ystadegol y DU yn cael ei rhedeg o dan fframwaith cyfreithiol sy'n bodoli eisoes ar wahân.

Gan nad oes angen cyfraith ystadegau'r UE ar y DU i barhau i gynhyrchu data ystadegol, ystyrir bod cyfraith ystadegau'r UE yn ddiffygiol, yn ddiangen ac yn warged i fframwaith cyfreithiol y DU. Bydd data'n parhau i gael eu casglu, eu rheoleiddio a'u lledaenu o dan fframwaith ystadegau domestig y DU.

Bydd y rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015 a Deddf Diogelu Data 2018 fel bod y cyfeiriadau ynddynt at safonau Ewropeaidd penodol yn cael effaith o fewn cyfraith yr UE a ddargedwir o ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Tachwedd 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw’r Rheoliadau hyn yn cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

26 Tachwedd 2021

Annwyl Eluned a Tracey

Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

Yn ein cyfarfod ar 18 Tachwedd 2021, trafodwyd ein dull o graffu ar y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Fframwaith, byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn dydd Iau 13 Ionawr 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg We welcome correspondence in Welsh or English

## Atodiad: Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

I’n cynorthwyo gyda’n trafodaethau ar y fframwaith cyffredin dros dro, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 13 Ionawr.

### Cyffredinol

1. Pam mae angen fframwaith cyffredin ar gyfer y maes polisi hwn?
2. Sut y bydd y fframwaith cyffredin hwn yn cysylltu â fframweithiau mewn meysydd polisi cysylltiedig, fel diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ac iechyd a lles anifeiliaid?
3. Mae'r fframwaith dros dro yn nodi y bydd y partïon yn datblygu rhaglen waith ar y cyd. A fydd y rhaglen waith hon yn cael ei chyhoeddi?
4. Mae'r fframwaith yn nodi mai rhan o'i ddiben yw rheoli gwahaniaeth posibl rhwng gwahanol rannau o'r DU. Bydd partïon yn ceisio cytuno ar ddulliau cyffredin 'lle y gellir cytuno'. Sut y bydd y partïon yn penderfynu pryd y byddai gwahaniaeth yn dderbyniol?
5. Sut y byddai'r fframwaith hwn yn effeithio ar yr ymdriniaeth ag unrhyw bandemig yn y dyfodol?

### Y DU a'r UE

6. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch y peryglon o adael sefydliadau'r UE ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd. Sut mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lliniaru'r risgiau hyn?
7. O dan Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â’r UE) 2021, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo rhai cyfrifoldebau a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE, fel cynrychioli Cymru ar Bwyllgor Diogelu Iechyd newydd y DU. A allech chi gadarnhau pa gyfrifoldebau newydd y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu hysgwyddo a pha adnoddau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer hyn? Sut mae'r trefniadau newydd yn wahanol i'ch trefniadau blaenorol pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE?
8. Bydd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn cyflawni rhai swyddogaethau cydlynu a wnaed yn flaenorol ar lefel yr UE. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ddigon o adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hyn?

### Rhyngwladol

9. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y fframwaith yn ystyried ei ymrwymiadau rhyngwladol presennol?

10. Darparwch asesiad Llywodraeth Cymru o sut mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer gwahaniaeth ac alinio rhwng ymrwymiadau a gweithgaredd iechyd rhyngwladol y pedair gwlad, er enghraifft Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru gyda Sefydliad Iechyd y Byd ar degwch iechyd neu ei chymorth diogelu iechyd y cyhoedd i genhedloedd Affrica yn ystod y pandemig.

11. Cadarnhewch sut yr ystyriwyd ac yr ymgorfforwyd rhwymedigaethau rhyngwladol presennol yn y fframwaith ac eglurwch sut y bydd rhwymedigaethau'r dyfodol yn cael eu hymgorffori.

12. Rhowch ragor o wybodaeth am rôl Llywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig o ran cyflawni agweddau rhyngwladol y fframwaith. Er enghraifft, a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rôl ddatganoledig yn natblygiad polisi tramor y DU, fel y darperir mewn fframweithiau eraill.

13. Cadarnhewch a yw'r fframwaith yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth o Gymru mewn fforymau rhyngwladol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gyrff Cymreig.

## Anghydfodau

14. A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y dull o ddatrys anghydfodau ar gyfer y fframwaith yn addas i'r diben?

15. Pwy fydd y canolwr terfynol os bydd anghydfod, ac a fydd hawl i apelio os bydd un o'r partïon yn anfodlon â'r modd y cafodd yr anghydfod ei ddatrys?

16. A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r fframwaith?

## Tryloywder ac atebolrwydd

17. A wnaeth Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith dros dro? Sut mae'r fframwaith dros dro yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?

18. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith?

19. Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith?

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

29 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**

Yn dilyn fy llythyr ar 15 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru a thrafodaeth Weinidogol, rithiol y sector gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad yn gynharach yr wythnos hon, ac at hysbysiad y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd a'r drafodaeth Weinidogol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

**Delegated Powers and Law Reform Committee**

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
*Via email*

T1.01
Chamber Office
EDINBURGH
EH99 1SP

Direct Tel: 0131-348-5212
(RNID Typetalk calls welcome)
(Central) Textphone: 0131-348-5415
DPLR.Committee@parliament.scot

25 November 2021

Dear Mr Irranca-Davies

The Scottish Parliament's Delegated Powers and Law Reform Committee has begun a short inquiry into the use of the made affirmative procedure during the coronavirus pandemic. Given these made affirmative instruments are also used in the Senedd, I wanted to both make you aware of the inquiry and invite any thoughts your Committee might have on this work.

As will likely have been the case in Wales, the public health measures used to try and protect the people of Scotland from the full impact of the coronavirus have chiefly been made using secondary legislation. Many of these measures have been brought into law using the made affirmative procedure. This has allowed the Scottish Government to bring changes into force immediately. The instruments are still considered by both this Committee and the relevant lead committee and must be approved by the Parliament within 28 days for the regulations to stay in force.

Prior to the pandemic, the use of the made affirmative procedure for laying Scottish statutory instruments was relatively unusual; less than five per year. Since March 2020, the Parliament has considered its use on well over 100 occasions.

The Committee has recognised the need to use the procedure during the pandemic. It has allowed the Scottish Government to respond quickly to the ever-changing challenges that the coronavirus presented. The Committee has nevertheless said that substantial changes should be brought into force immediately and before any parliamentary scrutiny only when that is essential, and that it should not become standard practice, particularly when time allows the affirmative procedure to be used.

The purpose of the inquiry is to ensure that the made affirmative procedure continues to be used appropriately and only when necessary. The Committee hopes that its work

might be of benefit to the Parliament when it considers the use of the made affirmative procedure in future legislation. We also want to ensure that there is an appropriate balance between flexibility for the Scottish Government in responding to an emergency, whatever that may be, and ensuring appropriate parliamentary scrutiny and oversight.

While the Committee appreciates that the procedures in the Senedd will be slightly different from those at Holyrood, it would be interested to know if your Committee had considered the use of the made affirmative procedure, particularly during the pandemic, and whether you had any views on how we can ensure that parliamentary scrutiny is not diminished by their use.

Given the Committee is keen to report in time for the February recess, we would be grateful for any views you might have by Wednesday 22 December 2021

Yours sincerely



Stuart McMillan MSP
Convener of the Delegated Powers and Law Reform Committee

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

1 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd ynghylch Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ynghylch yr egwyddor sy'n golygu na ddylai unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bwerau'r Senedd gael ei llunio heb gymeradwyaeth y Senedd, yn amodol ar derfynau amser. Dylid nodi, fodd bynnag, y cafodd cydsyniad i'r Offeryn Statudol ei roi i Lywodraeth y DU gan y Gweinidog Newid Hinsawdd cyn i ymrwymiad Prif Weinidog Cymru ddod i rym ar 11 Hydref. O'r herwydd cafodd Rheol Sefydlog 30C ei dilyn adeg rhoi'r cydsyniad.

Tynnir sylw'r Pwyllgor yn ogystal at y ffaith bod tri fframwaith yn gysylltiedig â'r swyddogaethau o fewn yr Offeryn Statudol; Amrywogaethau a Hadau Planhigion, Iechyd Planhigion ac Iechyd a Lles Anifeiliaid. Cafodd y rhain eu cymeradwyo'n amodol gan Weinidogion ar ddiwedd y cyfnod pontio ac maent wedi bod yn weithredol ers dechrau'r flwyddyn. Mae'r penderfyniad i roi cydsyniad Deddfwriaethol yn broses ar wahân ond mae'r tri fframwaith yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal trafodaethau ynghylch materion polisi, materion rheoleiddio a materion gweithredol drwy'r grwpiau sydd wedi'u sefydlu rhwng y pedair llywodraeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd cydsyniad ei roi i’r Offeryn Statudol yn sgil yr angen i fynd i’r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol ar ôl i’r Deyrnas Unedig ymadael â’r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn sicrhau y gall dulliau rheoli ar gyfer iechyd planhigion ac iechyd anifeiliaid weithredu’n effeithiol er mwyn diogelu bioamrywiaeth a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a’r trydydd gwledydd perthnasol.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

18 Tachwedd 2021

Annwyl Lesley,

Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Yn ein cyfarfod ar 15 Tachwedd 2021, fe wnaethom ni drafod y Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Fe wyddoch fod y Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth i gywiro diffygion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, hadau a thatws hadyd sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwallau mewn amryw offerynnau statudol. Nodwn fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig am resymau "effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau".

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi bod y Rheoliadau:

> *"…yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethau hyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."*

Deallwn fod y Rheoliadau hyn yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd, o dan Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU cyn y



Senedd Cymru
Welsh Parliament

gallai'r Senedd ddeddfu i ddileu neu addasu swyddogaethau sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol y DU.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ailadrodd yr egwyddor na ddylid gwneud unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bwerau'r Senedd heb i'r Senedd ymwneud â hyn mewn unrhyw ffordd (er enghraifft, drwy Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth y Senedd cyn cydsynio i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth). Mae'r egwyddor hon yn gymwys waeth pa mor fach y gallai'r effaith ar bwerau'r Senedd fod.

At hynny, pe bai Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i wneud y Rheoliadau hyn ar sail dull gweithredu Prydain Fawr gyfan (h.y. fframwaith cyffredin), byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth bellach ynghylch unrhyw fframwaith cyffredin o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb erbyn 1 Rhagfyr 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 9.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JJ-4062-21

Huw Irranca-Davies MS
Chair, Legislation, Justice and Constitution (LJC) Committee

02 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd yn amlinellu cwestiynau'r Pwyllgor o'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd y DU. Rydym yn ysgrifennu i roi mwy o fanylion am y materion a amlygwyd.

Yn gyntaf, hoffem egluro'r sylwadau ynghylch y Bil plastigau untro (SUP), yng nghyd-destun Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA). Fel y gwyddoch, cyflwynwyd UKIMA yn dilyn ein hymgynghoriad yn cynnig gwaharddiad ar nifer o eitemau SUP sy'n cael eu taflu'n aml. Er bod yr Egwyddor Cydnabod Cydfuddiannol yn Rhan 1 o UKIMA wedi creu cymhlethdod yn y maes hwn, ein barn gyffredin yw na all UKIMA gwtogi ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn y ffordd y mae'n honni. Mae hyn yn gyson â'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'n her gyfreithiol barhaus ar y mater hwn. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan y Cwnsler Cyffredinol ym mis Medi a'i lythyr ym mis Hydref yn tynnu sylw at y pwynt hwn. Ar y cyfan, nid ydym yn credu bod UKIMA yn gweithredu er mwyn atal y Senedd rhag deddfu ar faterion datganoledig mewn ffordd sy'n anghyson â'r egwyddor cydnabod cydfuddiannol yn UKIMA. Felly, yng nghyd-destun SUP, nid ydym yn credu bod UKIMA yn gweithredu er mwyn atal y Senedd rhag deddfu i wahardd gwerthu eitemau SUP yng Nghymru mewn ffordd sy'n anghyson â'r egwyddor cydnabod cydfuddiannol yn UKIMA.

Am y rhesymau hyn, nid ydym yn disgwyl unrhyw effaith ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol sy'n deillio o UKIMA.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel a amlygwyd yn yr ymgynghoriad Lleihau Plastig Untro, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwireddu ein huchelgais ar blastigau untro sy'n cael eu taflu'n aml fesul cam. Rydym yn cymryd pob cam posibl i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y cam un y gwaharddiadau arfaethedig, cyn gynted â phosibl, o fewn tymor y Senedd hon. Yn y cyfamser, mae swyddogion eisoes wedi dechrau gweithio'n paratoi ar gyfer cyfnodau'r gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu tystiolaeth ar gyfer y 60+ o eitemau ychwanegol a nodwyd yn yr ymgynghoriad fel eitemau ar gyfer gweithredu posibl yn y dyfodol. Yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym yn gosod safonau uchel i ni'n hunain ac mae Bil yn un o'r opsiynau yr ydym yn eu harchwilio i gyflawni uchelgais ehangach i fynd i'r afael â'r math hwn o lygredd amgylcheddol.

Diolchwn i'r Pwyllgor am eu hamynedd yn y materion hyn a gofynnwn iddynt nodi bod Bil y DU bellach wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

Yn gywir



**Julie James MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



**Mick Antoniw MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol

8 Tachwedd 2021

Annwyl gyfeillion

Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU

Ddydd Mawrth yr wythnos diwethaf yn y Cyfarfod Llawn, yn ystod y sylwadau i gloi'r ddadl ar y cynnig cydsyniad uchod, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y canlynol:

> *"I ailadrodd y pwynt fy mod i'n llwyr fwriadu cyflwyno Bil plastigau defnydd untro i'r Senedd. Fodd bynnag, rydym ni wedi ein cynnwys mewn problemau penodol sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r trefniadau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hi."*

Fodd bynnag, pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol am effaith Deddf 2020 mewn sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi, dywedodd y canlynol wrthym:

> *"So, essentially, we do not have regard to the internal market Act in terms of our legislation. We work on the basis of the devolved powers that we actually have, as determined by the various Government of Wales legislation. We do not think that the internal market Act lawfully limits those devolved responsibilities."*

Ar 22 Hydref, mewn ymateb i gwestiwn ar Ddeddf 2020 yn ein llythyr ar 8 Hydref, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

> *8. A yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail nad yw effaith ymarferol deddfau Cymru o fewn cwmpas y Farchnad Fewnol yn*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

*cael e[u] heffeithio a'u tanseilio, fel y dadleuwyd yn ei sail dros gynnal adolygiad barnwrol?*

*Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw'r Ddeddf wedi newid y setliad datganoli. Yn wir, dyna'r hyn yr ydym wedi'i gyflwyno fel rhan o'r Adolygiad Barnwrol sy'n herio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, sydd bellach ar y cam apelio yn y Llys Apêl. Rydym yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail honno… ".*

Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sylwadau ynghylch y Bil plastigau untro yng nghyd-destun Deddf 2020 a hefyd safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch effaith Deddf 2020 ar ei dull o ddeddfu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# Eitem 14.2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon